

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

## Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

---

### 2014-15

## CYNNWYS

<b>RHAGAIR</b> .....	<b>3</b>
<b>PERFFORMIAD</b> .....	<b>5</b>
ADRODDIAD STRATEGOL.....	5
ADRODDIAD GWEITHREDOL .....	33
<b>ATEBOLRWYDD</b> .....	<b>39</b>
DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU .....	39
DATGANIAD LLYWODRAETHU .....	40
ADRODDIAD TALIADAU .....	51
<b>TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYM- RU I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU</b> .....	<b>60</b>
<b>DATGANIADAU ARIANNOL</b> .....	<b>63</b>
DATGANIAD AM Y GWARIANT NET CYNHWYSFAWR.....	63
DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL.....	64
DATGANIAD LLIF ARIAN .....	65
DATGANIAD O NEWIDIADAU YN ECWITI TRETHDALWYR .....	66

## RHAGAIR

Ers ymgymryd â swydd y Comisiynydd, rwyf wedi cwrdd ac wedi siarad â miloedd o bobl hŷn o bob cwr o Gymru ac maent yn dal i rannu â mi eu pryderon, eu barn, eu gobeithion a'u dymuniadau am heneiddio yng Nghymru. Maent wedi dweud wrthyf, yn fwy na dim arall, eu bod am gael yr ansawdd bywyd gorau posibl wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae hyn yn golygu sicrhau bod pobl yn ddiogel ac yn cael gofal da a'u bod yn gallu manteisio ar y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gadw'n iach ac annibynnol. Mae sbarduno'r newid hwn, y newid mae pobl hŷn am ei weld ac angen ei weld, wedi parhau i fod yn elfen ganolog o'm gwaith yn ystod y deuddeng mis diwethaf.

Rwyf wedi cynnal yr Arolwg mwyaf yng Nghymru hyd yma o ansawdd bywyd a gofal ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal ac wedi cyhoeddi fy adroddiad adolygu, 'Lle i'w Alw'n Gartref?' ym mis Tachwedd 2014. Nid yw'r hyn sydd yn yr adroddiad yn braf i'w ddarllen ac rwyf wedi datgan yn glir bod methiant i ddelio â'r materion a godwyd yn rhywbeth na allwn ei ystyried yng Nghymru. Rwyf wedi bod yn bendant iawn ynghylch yr hyn y mae'n rhaid ei newid ym maes gofal preswyl a gofal nyrsio a pha gamau y mae angen eu cymryd, a byddaf yn parhau i chwilio am dystiolaeth, ar ran pobl hŷn, bod y newid hwn wedi'i gyflawni. Mae pobl hŷn yn ymddiried ynom ac mae ganddynt hawl i ddisgwyl na fydd neb yn eu siomi. Ni ddylem ac ni allwn droi cefn ar safonau annerbyniol mewn unrhyw agwedd ar ein sector cyhoeddus.

Ochr yn ochr â phryderon am gartrefi gofal, mae pobl hŷn yn aml yn sôn wrthyf am bwysigrwydd gwasanaethau cymunedol, fel llyfrgelloedd, bysiau, canolfannau cymunedol a dydd, a thoiledau cyhoeddus. Rhaid i ni beidio ag anghofio na diystyru gwerth y gwasanaethau cymunedol hanfodol hyn i bobl hŷn a'u heffaith ar eu bywydau, yn ogystal â'r gost i'r coffrau cyhoeddus, pan fydd y gwasanaethau hyn yn cael eu colli. Mae llawer o newidiadau'n cael eu gwneud i'r gwasanaethau hyn ac rwyf wedi datgan yn glir os na fyddwn yn llwyddo i ymgysylltu ac ymgynghori â phobl hŷn mewn ffordd ystyrlon, neu os na allwn fanteisio i'r eithaf ar eu gwybodaeth a'u harbenigedd wrth wneud penderfyniadau anodd, mae perygl i ni wneud penderfyniadau a fydd yn cael effaith andwyol am flynyddoedd i ddod.

Dyna pam rwyf wedi datblygu a chyhoeddi pecyn ymgysylltu ymarferol, sydd wedi cael ei ddosbarthu i bobl hŷn ledled Cymru, ac wedi cyhoeddi canllaw arferion gorau i Awdurdodau Lleol (o dan Adran 12 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru)), i egluro wrthynt beth yw eu dyletswyddau tuag at bobl hŷn o ran ymgysylltu ac ymgynghori.

Eleni, rwyf hefyd wedi cryfhau fy ngwaith yn sylweddol i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn gan fod diffyg cydnabyddiaeth i gam-drin pobl hŷn a diffyg ymateb i hynny o hyd. Rwyf yn gweithio ag ystod eang o asiantaethau fel y gallwn ddeall yn well beth yw natur y gamdriniaeth y mae pobl hŷn yn ei hwynebu, fel bod dioddefwyr cam-drin domestig yn cael eu cydnabod ac yn cael cymorth priodol a'n bod yn darparu cyngor, arweiniad a chymorth mewn ffordd sy'n diwallu anghenion pobl hŷn.

Er bod llawer o'm gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau bod pobl hŷn sy'n eiddil neu agored i niwed, neu sydd angen eu hamddiffyn, yn cael gofal a chymorth priodol – rhoi llais iddynt os nad oes ganddynt lais – mae'n bwysig peidio â thybio bod pob person hŷn yn eiddil neu'n agored i niwed, na thybio ychwaith bod eiddilwch a cholli annibyniaeth yn rhan anorfod o heneiddio. Mae llawer y gallwn ei wneud ac y mae angen i ni ei wneud i helpu pawb yng Nghymru i 'heneiddio'n dda' wrth iddynt fynd yn hŷn. Dyna pam rwyf wedi sefydlu'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, y cyntaf o'i bath yn Ewrop. Mae'n gydweithrediad cenedlaethol rhwng dros 300 o sefydliadau, grwpiau ac unigolion sy'n cydweithio i wella lles pobl ac i greu gwlad lle mae gan bawb gyfleoedd i wneud y gorau o'u blynyddoedd hŷn.

Mae Cymru'n wynebu llawer o heriau ac rwyf yn llawn sylweddoli eu maint. Mae bwriad pendant i gyflawni er mwyn yr holl bobl hŷn, ond nid yw bwriad ynddo'i hun yn ddigon. Yn y pen draw, rhaid defnyddio effaith a chanlyniadau'r gwaith sy'n cael ei wneud neu sydd yn yr arfaeth i gyflawni newid cyn y gallwn farnu a yw'r bwriad wedi symud ymlaen o ddyhead i realiti.

Lleisiau pobl hŷn yw'r allwedd i sicrhau ein bod yn llwyddo i gyflawni'r newid hwn a rhaid i ni gofio na fydd dim yn fwy costus na gwneud pethau'n anghywir. Yn aml iawn, y pethau lleiaf a lleiaf costus yw'r pethau sy'n gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

Dylai Cymru ymfalchïo ei bod yn genedl o bobl hŷn, ymfalchïo yn y wybodaeth, y profiad a'r amrywiaeth y mae pobl hŷn yn eu cyfrannu at ein gwlad, ymfalchïo yn y cyfraniad enfawr maent yn parhau i'w wneud i'n cymunedau. Rwyf yn falch o fod yn Gomisiynydd ar eu rhan a byddaf yn parhau i ddadlau a chodi llais ar eu rhan, gan ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif pan fydd angen, i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol ar y pethau hynny sy'n bwysig i bobl hŷn a bod Cymru, o ganlyniad, yn lle da i heneiddio – nid dim ond i ambell un ond i bawb.

**Sarah Rochira**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

## **PERFFORMIAD ADRODDIAD STRATEGOL**

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf), Atodlen 1 Paragraff 10 (1) (b).

### **Hanes a chefnidir statudol**

Sefydlwyd swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru o dan Adran 1 y Ddeddf. Dechreuais yn fy swydd fel Comisiynydd ar 4 Mehefin 2012.

Dyma swyddogaethau'r Comisiynydd:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Hyrwyddo'r gwaith o ddarparu cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, gan ddileu gwahaniaethu yn eu herbyn.
- Annog arfer da wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru.
- Cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Rwyf yn cael fy nghyllido gan Weinidogion Cymru er fy mod yn gweithredu'n annibynnol, ac rwyf yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) o ran defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i mi. Yn 2014-15 cefais £1.750 miliwn o gyllid a oedd yn cynnwys dyraniad anghylchol o £35k ar gyfer y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru sy'n cael ei gweithredu gan fy swyddfa (2013-14: £1.730 miliwn).

### **Cenhadaeth fy sefydliad**

Yr hyn y mae pobl hŷn yn ei ddweud sydd o bwys iddyn nhw sy'n llywio fy ngwaith ac mae eu llais wrth galon popeth rwyf yn ei wneud.

Fy swyddogaeth yw sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n ynysig nac yn teimlo bod pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn, a'u bod yn cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Rwyf am i Gymru fod yn lle da i heneiddio, nid dim ond i ambell un, ond i bawb.

### **Adolygiad o berfformiad yn 2014-15**

Ym mis Ebrill 2013 cyhoeddais fy Fframwaith ar gyfer Gweithredu a oedd yn disgrifio fy mlaenoriaethau'n glir dros y pedair blynedd nesaf. Roedd yn cynnwys y newidiadau rwyf yn disgwyl eu gweld yn digwydd yng Nghymru a sut y byddaf yn cymell gwelliannau ym mywydau pobl hŷn er mwyn gwneud Cymru yn lle da i heneiddio. Defnyddiais yr hyn a

ddywedodd y bobl hŷn rwyf wedi cwrdd â nhw i ddatblygu pum blaenoriaeth glir yn fy Fframwaith.

Mae crynodeb o uchafbwyntiau fy ngwaith yn ystod 2014-15 i'w gweld isod, ac maent yn cael eu cymharu â'r blaenoriaethau hyn. Dyma beth rwyf yn ei ddefnyddio i fesur fy mherfformiad wrth fy ngwaith fel Comisiynydd.

## **Sicrhau bod lles pobl hŷn wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus**

### **Cydnabod rhagoriaeth**

Er mwyn hyrwyddo arferion da yn y sectorau allweddol sy'n gweithio gyda phobl hŷn ac ar eu rhan, rwyf wedi cefnogi nifer o sefydliadau drwy noddi gwobrau sy'n cydnabod y cyfraniad amhrisiadwy a wnaethpwyd gan unigolion neilltuol.

Mae'r gwobrau hyn yn gydnabyddiaeth ffurfiol o ragoriaeth ar waith ac maent yn dathlu arloesedd, angerdd, ymrwymiad, gwaith caled ac ymroddiad i wella bywydau pobl hŷn. Yn ystod 2014-15, roedd yn bleser cael noddi'r gwobrau canlynol:

- Gwobrau Nyrs y Flwyddyn y Coleg Nyrsio Brenhinol yng Nghymru - Gwobr Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (aeth enillydd y wobr hon ymlaen i ennill y brif Wobr Nyrs y Flwyddyn)
- Gwobrau Gofal Cymru (ar y cyd â Fforwm Gofal Cymru) – Gwobr Urddas mewn Gofal
- Gwobr Ysbrydoli NIACE Dysgu Cymru Addysg Oedolion – Gwobr Dysgwr Hŷn y Flwyddyn
- Gwobrau Gwaith Cymdeithasol Cymru Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain – Gwobr Cyflawniad Oes

Mae cymaint yn ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru y gallwn ymfalchïo ynddo ac rwyf wedi cwrdd â llawer o staff gwasanaethau cyhoeddus neilltuol sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl hŷn yng Nghymru.

### **Heneiddio'n Dda yng Nghymru**

Gall oed, wrth gwrs, ddod â heriau yn ei sgil, ond nid oes yn rhaid ac ni ddylai eiddilwch a dibyniaeth gael eu gweld fel rhan anorfod o heneiddio. Mae llawer y gall unigolion ei wneud i gadw'u hiechyd a'u lles cyffredinol, ond mae angen llawer mwy os ydym am sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo. Mae angen ffordd gydgysylltiedig o weithio sy'n rhoi

pwyslais ar ganlyniadau pendant iawn; canlyniadau sy'n adlewyrchu'r heriau mwyaf y mae pobl yn eu hwynebu os ydynt am heneiddio'n dda.

Fy swyddfa sy'n cynnal y Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru ac mae'n fraint i mi gael cadeirio hyn. Mae'n bartneriaeth gydweithredol o sefydliadau a chyrrff cyhoeddus a thrydydd sector cenedlaethol, sy'n cydweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i bawb heneiddio ynddo.

Mae gan y rhaglen un nod syml - gwella lles pobl 50 oed a hŷn yng Nghymru. I gyflawni hyn, mae gwaith yn cael ei wneud sy'n seiliedig ar bum thema allweddol:

- Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed
- Atal Cwmpiadau
- Cymunedau Cefnogi Pobl â Dementia
- Dysgu a Chyflogaeth
- Unigrwydd ac Arwahanrwydd

Mae strwythur y Rhaglen yn cynnwys Grŵp Gweithredu Strategol i lywio gwaith y Rhaglen drwy gyngor, arweiniad a chraffu; Grwpiau Cyngori Arbenigol, sy'n canfod arferion da ac yn cyngori'r Grŵp Gweithredu Strategol; a Rhwydweithiau Thematig, sy'n cefnogi eu haelodau wrth iddynt gyflawni ystod o gynlluniau yn ein cymunedau.

Mae'r Rhwydweithiau Thematig yn ffordd hollbwysig o godi ymwybyddiaeth o'r camau y gellir eu cymryd ar lefel leol i helpu pobl i heneiddio'n dda ac i fanteisio ar y gweithredu o fewn cymunedau a chefnogi hynny. Maent yn defnyddio profiad a gwybodaeth leol i ysgogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni cenedlaethol sy'n well ac yn dwyn mwy o effaith.

Mae gan y rhaglen gysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd, sy'n bwysig o ran dysgu yn sgil arferion da ledled Ewrop a hefyd o ran manteisio ar ffrydiau cyllido Ewropeaidd sy'n gysylltiedig â heneiddio. Fel rhan o'r gwaith hwn yn Ewrop, mae Cymru erbyn hyn yn cael ei chydabod fel un o'r 13 gwlad enghreifftiol yn sgil ein gwaith arloesol i gynorthwyo pobl wrth iddynt heneiddio.

Cafodd y Rhaglen ei lansio'n swyddogol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Mark Drakeford AC, mewn digwyddiad yn y Senedd fis Hydref 2014. Daeth amrywiaeth eang o bartneriaid a rhanddeiliaid i'r lansiad, gan gynnwys uwch swyddogion o'r Comisiwn Ewropeaidd a'r Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd ar Heneiddio Egniïol ac Iach.



Yn ystod y lansiad, ymrwymodd y Cyng Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyn-gor Sir Ceredigion a Swyddog Arweiniol CLILC ar Lywodraeth Leol, bob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru yn ffurfiol i fod yn Gyfeillgar i Oed, drwy lofnodi datganiad o fwriad ochr yn ochr â mi.

Er mwyn sicrhau bod staff Awdurdodau Lleol yn dysgu mwy am nodau'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru a sut y gallent fod yn rhan o'r rhaglen, cynhaliwyd seminarau yn Llandudno ac yng Nghaerdydd. Daeth 85 o swyddogion ac aelodau i'r seminarau gan gynrychioli amrywiaeth o adrannau. O ganlyniad i'r seminarau hyn, mae staff Awdurdodau Lleol mewn gwell sefyllfa erbyn hyn i sicrhau bod cymunedau ledled Cymru yn Gyfeillgar i Oed.

Ym mis Mawrth 2015, bûm yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau Rhwydwaith yn Llandudno a Baglan, a lwyddodd i ddenu cyfanswm o 210 o randdeiliaid – cymysgedd o aelodau presennol y Rhwydwaith a darpar aelodau. Roedd y digwyddiadau'n gyfle i'r cynrychiolwyr ffurfio rhwydweithiau newydd, rhannu arferion da ac edrych ar gyfleoedd i gydweithio. O ganlyniad i'r digwyddiadau hyn, mae 80 o randdeiliaid eraill wedi cofrestru i fod yn rhan o Rwydweithiau Thematig Heneiddio'n Dda yng Nghymru, gan gynyddu cyfanswm yr aelodau i 380.

Mae'r sefydliadau sy'n rhan o'r Grŵp Cynghori Strategol a'r Grwpiau Cynghori Arbenigol wedi datgan eu hymrwymiad yn gyhoeddus i weithredu mewn ffordd a fydd yn helpu i gyflawni nodau'r rhaglen yn ystod y pedair blynedd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys cynllun lleol Heneiddio'n Dda yng Nghymru ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol. Mae hyn yn dangos ymrwymiad gwirioneddol i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru wrth iddynt heneiddio a sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i heneiddio'n dda.

Rwyf wedi cychwyn ar gyfres o gyfarfodydd â Byrddau Gwasanaethau Lleol ledled Cymru i ganfod sut y gallant weithio i sicrhau bod eu gwaith yn ategu gwaith Heneiddio'n Dda yng Nghymru i gyflawni newid gwirioneddol i bobl hŷn. Mae gwaith y rhaglen yn hanfodol hefyd i'r pwyslais newydd ar les y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn bwriadu ei roi ar ein gwasanaethau cyhoeddus.



## **Gwella ansawdd a mynediad at ofal cymdeithasol ac iechyd ynghyd â cheisio sicrhau bod hyn ar gael**

### **Adolygiad o Gartrefi Gofal**

Yn 2013, cyhoeddais y byddwn yn defnyddio fy mhwerau cyfreithiol, yn unol ag Adran 3 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, i Adolygu ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

### **Casglu Tystiolaeth**

Fy Adolygiad o Gartrefi Gofal oedd yr Adolygiad mwyaf o'i fath i gael ei gynnal erioed yng Nghymru. I sicrhau bod lleisiau pobl hŷn a'r rhai sy'n malio ac sy'n gofalu amdanynt wrth galon fy Adolygiad, bŵm yn casglu amrywiaeth eang o dystiolaeth gan bobl hŷn, cyrff statudol a rhanddeiliaid allweddol eraill, fel mudiadau'r trydydd sector, gweithwyr proffesiynol a pherthnasau.

Roedd y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer fy Adolygiad yn cynnwys:

- Dros 2,000 o ymatebion i holiadur gan bobl hŷn, eu teuluoedd a'r cyhoedd.
- Ymweliadau dirybudd â 100 o gartrefi gofal ledled Cymru gan fy nhîm o Gofnodwyr Gofal Cymdeithasol i arsylwi ar bobl hŷn ac i glywed yn uniongyrchol ganddynt am eu profiadau.
- 53 o gyflwyniadau o dystiolaeth ysgrifenedig gan y cyrff a oedd yn destun fy Adolygiad ac ystod eang o sefydliadau sy'n cynrychioli ac yn gweithio ar ran pobl hŷn.
- Digwyddiadau ymgysylltu a grwpiau ffocws ledled Cymru gyda theuluoedd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, y rhai sy'n darparu eiriolaeth annibynnol a chynrychiolwyr grwpiau nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.
- Sesiynau o amgylch bwrdd â sefydliadau sy'n cynrychioli ac yn gweithio ar ran pobl hŷn, gan gynnwys cyrff proffesiynol, mudiadau'r trydydd sector ac arbenigwyr cydnabyddedig mewn gwaith darparu gofal preswyl a nyrsio.
- Sesiynau tystiolaeth a chraffu ffurfiol â chyrff a oedd yn destun fy Adolygiad i drafod ac ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd yn fwy manwl ac i gael rhagor o wybodaeth am eu dealltwriaeth o realiti pob dydd byw mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio, y newid sydd ei angen i wella ansawdd bywyd ac a yw'r camau presennol (arfaethedig neu sydd ar waith) yn ddigonol i gyflawni'r newid hwn.
- Cafwyd tystiolaeth lafar gan gyfanswm o 82 o gyrff.

## Canfyddiadau'r Adolygiad ac Anghenion Gweithredu

Er bod canfyddiadau fy Adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2014, wedi amlygu rhai enghreifftiau rhagorol o ofal a oedd yn canolbwyntio'n wirioneddol ar yr unigolyn, a gofal a oedd yn galluogi ac yn grymuso i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl hŷn, mae amrywiadau sylweddol ar hyd a lled Cymru sy'n golygu bod gormod o bobl hŷn yn byw mewn cartrefi gofal lle mae ansawdd bywyd yn annerbyniol. Mae gormod o bobl hŷn yn byw mewn cartrefi gofal lle nad ydynt bellach yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt, sy'n golygu eu bod yn colli dewis a rheolaeth ystyrlon dros eu bywydau, lle mae eu hanghenion emosiynol yn cael eu hesgeuluso a lle nad yw eu hawliau sylfaenol yn cael eu diogelu.

Dangosodd fy nghanfyddiadau hefyd fod y gofal a ddarperir mewn llawer o gartrefi gofal yng Nghymru yn aml yn methu â diwallu anghenion yr unigolyn, gan ganolbwyntio'n hytrach ar agwedd o un dull addas i bawb, ac mae hynny'n rhywbeth sy'n gallu cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd pobl hŷn.

Roedd fy adroddiad ar yr Adolygiad – Lle i'w Alw'n Gartref? – yn cynnwys Anghenion Gweithredu penodol sy'n amlinellu'r newid sydd ei angen i wella ansawdd bywyd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal ledled Cymru y mae disgwyl i'r cyrff cyhoeddus a'r darparwyr cartrefi gofal annibynnol sy'n destun fy Adolygiad gydymffurfio â hwy.

Gofynnais i'r cyrff hyn gyflwyno ymateb ysgrifenedig i mi o fewn tri mis, yn amlinellu pa gamau roeddent yn eu cymryd ar y pryd, neu y byddant yn eu cymryd, i gydymffurfio â'm Hanghenion. Mae pob un o'r cyrff a mwyafrif y darparwyr cartrefi gofal annibynnol wedi ymateb ac mae fy nhîm a minnau wrthi'n awr yn dadansoddi ac yn asesu'r ymatebion hyn. Os tybir bod unrhyw ymateb yn anfoddhaol, bydd rhybudd ysgrifenedig ffurfiol yn cael ei gyhoeddi, sy'n golygu y bydd yn rhaid cael ymateb gwell o fewn mis.

## Ymgysylltu gwleidyddol

Roeddwn yn falch bod yr holl gyrff a sefydliadau a oedd yn rhan o broses yr Adolygiad, gan gynnwys darparwyr cartrefi gofal, wedi rhoi croeso cyhoeddus i'm canfyddiadau a'r Anghenion Gweithredu a'u bod wedi datgan eu hymrwymiad i weithio â mi i gyflawni'r newid sydd ei angen i sicrhau bod ansawdd bywyd yn rhan ganolog o ofal preswyl a nyrsio yng Nghymru.

Cafodd fy Adolygiad groeso cynnes hefyd gan yr holl bleidiau gwleidyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac roedd yn gan-olbwynt fy sesiwn graffu flynyddol â Phwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad, yn ogystal â dadl cyfarfod llawn. Cafwyd datganiad gan y Gweinidog Iechyd mewn cyfarfod llawn a oedd yn amlinellu ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i'm Hadolygiad a'r Anghenion Gweithredu.

Cafwyd consensws trawsbleidiol cryf bod fy Adolygiad wedi bod yn hanfodol i dynnu sylw at y problemau niferus y mae pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn eu hwynebu a bod rhaid cyflawni'r newid sydd ei angen, fel y nodwyd yn fy Anghenion Gweithredu, ar frys.

### Sylw yn y Cyfryngau

Cafodd fy Adolygiad gryn sylw yn y cyfryngau hefyd, gan gynnwys:

- Y brif stori ar newyddion ITV Wales
- Rhifyn arbennig o'r rhaglen materion cyfoes 'Wales This Week' ar ITV Wales
- Sylw drwy gydol y dydd ar Newyddion BBC Cymru (Teledu, Radio, Ar-lein, a hefyd yn y Gymraeg)
- Tudalen flaen y Western Mail
- Sylw ar raglen 'You and Yours' ar BBC Radio 4
- Sylw amlwg ym mhapurau dyddiol Cymru yn ogystal â phapurau lleol wythnosol a chyhoeddiadau Cymraeg
- Sylw ar wefan gofal cymdeithasol papur newydd The Guardian
- Stori ar BBC Wales Today ar safon bwyd mewn cartrefi gofal

### Canlyniadau'r Adolygiad hyd yma

Roeddwn yn falch bod yr holl gyrff a oedd yn destun fy Adolygiad wedi rhoi croeso cynnes i'm Hanghenion Gweithredu a'u bod wedi ymrwymo i gyflawni'r newid sydd ei angen i sicrhau bod ansawdd bywyd yn elfen ganolog o'r system cartrefi gofal, ar bob lefel, o gomisiynu i ofal rheng flaen.

Yn dilyn cyhoeddi fy adroddiad ar yr Adolygiad, roeddwn yn falch hefyd bod nifer o gamau wedi'u cymryd eisoes i roi sylw i'r prif faterion a godwyd yn fy Adolygiad.

Roeddwn yn croesawu'n fawr y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y bydd £320,000 o arian ychwanegol yn cael ei gyfeirio i wella gofal iechyd y geg i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal i sicrhau bod gan bob

cartref gofal bolisi gofal y geg, bod asesiadau iechyd y geg yn cael eu cynnal pan fydd pobl yn cael eu derbyn i gartref gofal ac y bydd gan bob cartref hyrwyddwr gofal y geg a fydd yn gyfrifol am hybu arferion gorau.

Roeddwn yn croesawu hefyd y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y bydd gan feddygon teulu, fel rhan o'r contract meddygon teulu newydd ar gyfer Cymru, fwy o amser i'w dreulio i ofalu am y bobl fwyaf agored i niwed ag anghenion gofal cymhleth, yn fwyaf penodol cleifion eiddil a hŷn, a bod ymrwymiad i gynnal adolygiad o'r gwasanaeth ychwanegol ar gyfer cartrefi gofal yn 2016-17.

### **Y Camau Nesaf**

Yn ystod haf 2015, byddaf yn cyhoeddi datganiad a fydd yn disgrifio fy asesiad cyffredinol i weld a yw'r camau a nodwyd yn yr ymatebion yn cyflawni'r canlyniadau a ddisgwyliaf ac unrhyw gamau pellach rwyf yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod y canlyniadau hyn yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant sy'n dangos bod y camau a gymerwyd wedi arwain at newid ystyrlon a thymor hir i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru a bod ansawdd bywyd yn elfen ganolog o'r system cartrefi gofal.

### **Ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd**

Mae gennyf raglen waith ar y gweill ers amser sy'n edrych ar ansawdd gofal iechyd yng Nghymru, gan gynnwys cymorth i unigolion sy'n cael gofal annerbyniol ac ymgysylltu'n eang â Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru ynghylch fy nisgwyladau o ran craffu byrddau a llywodraethu.

### **Datganiadau Ansawdd Blynyddol**

Rwyf wedi datgan yn glir iawn wrth Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd bod yn rhaid iddynt sicrhau bod gofal i gleifion yn ddiogel ac yn effeithiol, bod cleifion yn cael eu trin ag urddas, gofal a thosturi bob amser a'u bod yn cael cymorth i deimlo'n ddiogel a theimlo eu bod yn cael gofal.

Rwyf yn disgwyl y bydd gan Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd ddealltwriaeth sylfaenol o ddiogelwch, effeithiolrwydd ac ansawdd eu gwasanaethau, gyda barn cleifion a staff yn hanfodol i'r ddealltwriaeth hon. Hefyd, dylent allu rhoi sicrwydd i'r cyhoedd am y safonau gofal y mae ganddynt hawl i'w disgwyl: naill ai fod gofal yn dderbyniol neu fod meysydd ar gyfer gwella'n cael eu cydnabod a bod gwelliannau'n cael eu gwneud.

Mae Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Fyrddau lechyd bob blwyddyn i roi sicrwydd o'r fath i'r cyhoedd am ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu gan ein gwasanaethau iechyd. Mae cyhoeddi Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn sicrhau bod Byrddau lechyd yn agored a thryloyw am eu gwasanaethau a safonau gofal, gan gynnwys meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau.

Roeddwn wedi cytuno â Byrddau lechyd a Llywodraeth Cymru y byddai Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu defnyddio i adrodd ar y meysydd lle'r oedd angen gwelliannau pellach a pharhaus. Byddai hyn yn sicrhau dull mwy cyson ac integredig o adrodd ar ansawdd gofal mewn fformat eglur a hygyrch sy'n ddealladwy i bobl hŷn, sef defnyddwyr mwyaf gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau bod Datganiadau Ansawdd Blynyddol 2013-14 mor eglur a hygyrch â phosibl, rhoddais arweiniad mewn nifer o ddigwyddiadau dysgu Cymru gyfan, yn ogystal ag yn y Canllaw Cyfathrebu 'sut mae' 1000 o Fywydau a gafodd ei ddsbarthu i bob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth lechyd. Yn dilyn cyhoeddi'r Datganiadau yn ystod hydref 2014, cefais gyfle i gwrdd â Byrddau lechyd a chyflwynais sylwadau iddynt am ba elfennau o'u Datganiad oedd yn cynnwys gwybodaeth eglur a manylion priodol, yn ogystal â sut y gellid bod wedi gwella'r datganiadau.

Mae Datganiadau Ansawdd Blynyddol 2013-14 yn dangos yn glir bod llawer iawn o waith yn cael ei wneud i wella cyfathrebu â'r cyhoedd a gwerthfawrogi profiad y cleifion. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd o hyd lle mae angen gwelliannau sylweddol, yn enwedig sut y mae llais a phrofiad cleifion wedi cael eu defnyddio i ddylanwadu ar y ddarpariaeth, a disgwyliaf y bydd y rhain yn cael sylw yn Natganiadau Ansawdd Blynyddol 2014-15.

### **Llywodraethu a Chraffu Effeithiol**

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal' ym mis Mai 2014, a oedd yn amlygu methiannau sylweddol yn lefel y gofal a ddarparwyd gan Fwrdd lechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ysgrifennais at Brif Weithredwr pob Bwrdd lechyd yng Nghymru yn gofyn am sicrwydd nad oedd yr holl broblemau a amlygwyd yn yr adroddiad yn gyffredin yn eu Bwrdd lechyd hwy.

Roedd yr ymatebion yn dangos yn glir nad oedd y Byrddau'n gallu gwarrantu y byddai eu systemau llywodraethu bob amser yn gallu canfod problemau tebyg i'r rhai y tynnwyd sylw atynt yn 'Ymddiried mewn



Gofal'. O ganlyniad, mynegais bryderon â'r Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru am nifer o faterion yn ymwneud â llywodraethu y mae'n rhaid i'r GIG yng Nghymru yn gyffredinol roi sylw iddynt ar fyrder:

- Cysondeb ac eglurder diffiniadau o ansawdd gofal ac i ba raddau y mae'r rhain yn adlewyrchu safbwyntiau pobl hŷn.
- Pa mor gadarn ac effeithiol yw'r dulliau sydd gan Fyrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau ar waith er mwyn gwerthuso ansawdd gofal.
- Pa mor gadarn ac effeithiol yw gwaith craffu'r Byrddau ynghylch ansawdd y gofal a ddarperir gan eu sefydliadau.
- Ffynonellau sicrwydd y Bwrdd o ran dynodi a gwella gofal annerbyniol.
- Pa mor agored a thryloyw yw perfformiad y Byrddau yn erbyn eu busnes craidd.

Rwyf hefyd wedi codi'r materion hyn yn ffurfiol â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Rwyf wedi nodi 12 maes allweddol y disgwyliaf y bydd Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yn adrodd yn rheolaidd arnynt ac yn cynnig sylwadau arnynt, gan gynnwys yn eu Datganiadau Ansawdd Blynyddol. Bydd defnyddio fframwaith adrodd sy'n cynnwys y meysydd allweddol hyn yn sicrhau mwy o gysondeb rhwng gwybodaeth a gyhoeddir gan Fyrddau Iechyd a bydd yn arwain at ddealltwriaeth fwy ystyrlon o ansawdd y gofal a ddarperir a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar bobl hŷn.

Rwyf hefyd wedi datgan yn glir wrth Lywodraeth Cymru y dylai'r GIG yng Nghymru weithredu fframwaith mesur perfformiad cenedlaethol ar unwaith a ddylai gael ei ddefnyddio gan bob Bwrdd Iechyd i gael cysondeb yn y ffordd y mae ansawdd gofal yn cael ei fesur ac yn y trefniadau adrodd. Rwyf yn disgwyl gweld y bydd fy meysydd allweddol ar gyfer adrodd yn cael eu cynnwys o fewn hyn yn ogystal ag yn y Fframwaith Safonau Gofal Iechyd diwygiedig ac yn cael eu hadlewyrchu yn Fframwaith Canlyniadau'r GIG sydd wrthi'n cael ei ddatblygu.

Rwyf wedi ymgysylltu'n eang â Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr Byrddau Iechyd, yn ogystal â Chyfarwyddwyr Gweithredol Iledled Cymru, i ehangu'r wybodaeth a'r ffyrdd o feddwl sydd ganddynt am yr hyn y mae gofal o ansawdd uchel yn ei olygu i bobl hŷn ac i'w cynorthwyo i ddeall sut beth yw craffu da ar ran pobl hŷn ar lefel Bwrdd. Er bod llawer o arferion da ar waith, rwyf wedi datgan yn glir hefyd ein bod yn dal yn methu'n rhy aml i gael yr hanfodion yn gywir, ac yn methu dysgu drwy

ein camgymeriadau. Mae angen i ni weld arferion gorau fel y safon normal ledled Cymru, a hynny yn gyflym.

### **Integreiddio**

Fel Comisiynydd, rwyf wedi datgan yn glir bod diffyg integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gallu cael effaith fawr ar ansawdd cymorth a gwasanaethau i bobl hŷn ac ar y ddarpariaeth sydd ar gael. Rwyf wedi parhau i alw am fwy o integreiddio, sy'n cynnwys tai a'r trydydd sector fel partneriaid cyfartal.

Fel rhan o waith amrywiol sy'n cael ei wneud i wella integreiddio, cyhoeddodd y Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol Ddatganiadau o Fwriad ar gyfer darparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Yn ystod hydref 2014, rhoddais adborth manwl ynghylch a oedd eu datganiadau o fwriad yn dangos yn glir y byddai'r camau a amlinellwyd yn arwain at newid gwirioneddol i bobl hŷn. Yn fy ymateb i'r Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol, mynegais bryderon nad oedd tai a'r trydydd sector yn cael eu gweld fel partneriaid cyfartal yn aml iawn ac nad oeddent yn rhan o'r camau i gynllunio a datblygu'r gwaith i wella integreiddio. Mynegais bryderon hefyd fod diffyg cynllunio o ran sut y byddai effaith y newidiadau arfaethedig yn cael ei nodi, ac yn cael ei hasesu a'i lliniaru.

I ategu fy agenda integreiddio, sy'n hanfodol i ddiwallu'r newidiadau yn anghenion pobl hŷn, byddaf yn cynnal gweithdy ym mis Ebrill 2015 ar gyfer staff allweddol Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i edrych ar sut y gallant ddarparu gwasanaethau integredig yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau buddiannau gwirioneddol i bobl hŷn.

### **Gwarchod a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol**

Yn syml iawn, mae gwasanaethau cymunedol yn gwbl hanfodol i lawer o bobl hŷn. Dylai gwasanaethau cymunedol gael eu gweld fel asedau hanfodol sy'n galluogi unigolion i gadw'u hiechyd, eu hannibyniaeth a'u lles, ac sy'n dod â buddiannau ehangach i'n cymunedau.

### **Seminarau**

Yn dilyn cyhoeddi fy adroddiad 'Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru' ym mis Chwefror 2014, a oedd yn cyflwyno dadl gref dros warchod y gwasanaethau cymunedol y mae pobl hŷn yn aml yn dibynnu arnynt, bŵm yn cynnal seminarau yn y de a'r gogledd ar gyfer staff allweddol Awdurdodau Lleol i drafod a chytuno ar y ffordd fwyaf effeithiol ymlaen i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl hŷn. Daeth dros 150 o gynrychiolwyr i'r seminarau hyn, a buont yn cymryd rhan



mewn cymysgedd o sesiynau llawn a gweithdai drwy gydol y dydd. Clywodd y cynrychiolwyr gyflwyniadau gan y canlynol:

- Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (ymgorffori lles mewn gwasanaethau cyhoeddus)
- Y Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol (pwysigrwydd gwasanaethau cymunedol i fynd i'r afael ag unigrwydd, unigedd ac iselder)
- Nesta (defnyddio arloesi i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus gwell)
- Cydgysylltwyr Strategaeth Pobl Hŷn (ymgysylltu â phobl hŷn a defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad yn fwy effeithiol)
- Cynghrair Henoed Cymru (rôl y trydydd sector a'r sector tai i gyflawni'r agenda integreiddio)
- CLILC (pwysau ariannol ar Awdurdodau Lleol)
- Pobl hŷn (profiadau o ddefnyddio gwasanaethau cymunedol)

Roedd y seminarau hyn yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr rannu arferion da ac ystyried dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau yn ogystal â'u helpu i ddeall pam y mae gwasanaethau cymunedol yn gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau pobl hŷn. Roedd yr adborth a gafwyd gan y cynrychiolwyr yn bositif iawn. Dywedodd llawer y byddent yn rhannu'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu â'u cydweithwyr ac y byddent yn ymdrechu i fabwysiadu agwedd fwy arloesol tuag at gynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau cymunedol.

### **Canllaw Arferion Gorau**

Fel rhan o'm rhaglen waith ehangach i amddiffyn a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol yng Nghymru, cyhoeddais Ganllaw ffurfiol i Awdurdodau Lleol ledled Cymru, drwy ddefnyddio fy mhwerau o dan Adran 12 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Diben y Canllaw hwn oedd eu hatgoffa o'u dyletswydd i ymgysylltu ac ymgynghori'n llawn, yn ystyrllon ac yn effeithiol â phobl hŷn pan fydd newidiadau'n cael eu cynnig i wasanaethau cymunedol a phan fydd penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud. Hefyd, roedd y Canllaw yn datgan yr angen i Awdurdodau Lleol ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl hŷn i sicrhau bod eu penderfyniadau'n ystyried ac yn adlewyrchu anghe- nion, pryderon a blaenoriaethau pobl hŷn yn llawn.

Roedd y Canllaw yn nodi'r gwahanol ffyrdd y dylai Awdurdodau Lleol eu defnyddio i ymgysylltu â phobl hŷn, gan ddisgrifio pwysigrwydd

ymgysylltu amserol, cyrraedd y rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml a sicrhau eu bod yn defnyddio'r ffordd fwyaf effeithiol o ymgysylltu.

Roedd y Canllaw hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd asesu'n drylwyr effaith unrhyw benderfyniadau ar bobl hŷn, a'r angen i sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn fwy na dim ond ymarferiad ticio blychau.

### **Pecyn Cymorth Ymgysylltu ar gyfer Pobl Hŷn**

Dyweddod llawer o'r bobl hŷn rwyf wedi cwrdd ac wedi siarad â hwy lledled Cymru nad ydynt yn gwybod sut i ymgysylltu â'u Hawdurdod Lleol, a'u bod yn teimlo nad oes ganddynt lais o gwbl pan fydd cynigion i leihau neu ddirwyn i ben y gwasanaethau cymunedol hanfodol maent yn dibynnu arnynt.

Dywed pobl hŷn wrthyf hefyd eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i fynegi eu barn a bod eu pryderon yn aml yn cael eu diystyru ac nad oes llawer o sylw yn cael ei roi pan gânt eu hystyried. Felly, rwyf wedi cyhoeddi pecyn cymorth ymgysylltu, sy'n adnodd ymarferol i helpu pobl hŷn i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Mae hyn wedi cael ei ddsbarthu ar hyd a lled Cymru.

Mae'r Pecyn yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth ymarferol i helpu pobl hŷn i ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol, gan gynnwys sut y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau a'u herio, a pha gymorth sydd ar gael i'w helpu i wneud hyn. Mae'r Pecyn yn amlinellu'n glir yr hyn y dylai pobl hŷn ei ddisgwyl gan eu Hawdurdodau Lleol, o ran ymgysylltu ac ymgynghori, pan fydd newidiadau i wasanaethau hanfodol yn cael eu cynnig. Mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am sut y gallant fod yn rhan o'r prosesau hyn. Hefyd, mae'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau ymarferol eraill, gan gynnwys set o gwestiynau allweddol a rhestr wirio y gall pobl hŷn eu defnyddio drwy gydol y broses ymgysylltu, llythyr enghreifftiol at Awdurdodau Lleol ac mae hefyd yn cynnwys cyfeiriadur cynhwysfawr o gysylltiadau a all gynnig cymorth a chefnogaeth hanfodol.

Fel Comisiynydd, rwyf am sicrhau bod pobl hŷn yng Nghymru yn cael y wybodaeth, yr adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gael y llais cryfaf posibl, llais sy'n cael ei glywed, llais y mae pobl yn gwrando arno ac yn gweithredu arno, fel bod modd iddynt weithio'n effeithiol â'u Hawdurdod Lleol a dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Rwyf yn sylweddoli bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol wneud penderfyniadau anodd ar wariant ac ar arbedion, ond mae'n hanfodol

bod gwasanaethau cymunedol yn cael eu diogelu neu'n cael eu darparu mewn ffyrdd newydd ac arloesol fel y bydd pobl hŷn yn parhau i allu eu defnyddio. Felly, rhaid i leisiau pobl hŷn fod wrth galon unrhyw benderfyniadau a fydd yn arwain at newidiadau i'r gwasanaethau hanfodol hyn.

### **Cynrychioli pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u gwarchod**

Amcangyfrifir bod dros 40,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso bob blwyddyn. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwaith da sy'n cael ei wneud mewn sawl rhan o Gymru i fynd i'r afael â'r gamdriniaeth y mae pobl hŷn yn ei hwynebu, nid oes ddealltwriaeth ddigonol eto mewn gwasanaethau cyhoeddus a chymdeithas yn gyffredinol am natur y gamdriniaeth hon a'r amgylchiadau sy'n arwain at wneud pobl hŷn yn agored i niwed neu mewn perygl o niwed.

Mae'n hanfodol bod gennym ddull systematig yng Nghymru i ganfod pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed a'r rhai sydd angen cymorth diogelu. Hefyd, rhaid cydnabod bod cam-drin pobl hŷn yn weithred droseddol a rhaid sylweddoli bod pobl hŷn yn ddioddefwyr cam-drin domestig pan fyddant yn dod o fewn y diffiniad cyfreithiol. Rhaid i'r sawl sy'n cael eu cam-drin gael cymorth cyflym a phriodol er mwyn gallu adfer eu diogelwch a'u lles ac er mwyn iddynt gael cefnogaeth lawn ein systemau cyfiawnder sifil a throseddol.

### **Adroddiad Cael Cymorth a Chyfiawnder: Cydweithio**

Fel rhan o'm gwaith eiriol ar ran pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed ac i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn, comisiynais Brifysgol Aberystwyth i edrych ar sut y mae sefydliadau ledled Cymru yn canfod camdriniaeth yn erbyn pobl hŷn, a chamdriniaeth ddomestig yn fwyaf penodol, a sut y mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi a'i throsglwyddo rhwng asiantaethau.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2015 ac roedd wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol sydd â rôl mewn gwasanaethau diogelu ac amddiffyn oedolion a chamdriniaeth ddomestig. Er bod rhai arferion da yng Nghymru, dangosodd yr adroddiad nad ydynt yn cael eu gweithredu'n gyson ym mhob ardal a gwnaethpwyd nifer o argymhellion ar sut y gellid gwella.

Roedd yr adroddiad yn dangos yn glir bod angen mwy o ymwybyddiaeth, ymroddiad a dull mwy cydgysylltiedig o weithio os yw pobl hŷn sy'n profi camdriniaeth am gael eu diogelu'n effeithiol.

## **Seminarau Diogelu**

Mae amddiffyn oedolion ar seiliau statudol erbyn hyn yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Felly mae'n amser priodol i ystyried sut y gall asiantaethau gydweithio'n well i atal pobl hŷn rhag syrthio drwy'r 'bylchau' sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng gwasanaethau.

Er mwyn rhoi sylw i argymhellion yr Adroddiad 'Cael Cymorth a Chyfiawnder: Cydweithio' ac, yn fwy cyffredinol, i ehangu gwybodaeth a ffyrdd o feddwl am y troseddau yn erbyn pobl hŷn a cham-drin pobl hŷn, cyflwynais gyfres o seminarau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes amddiffyn oedolion a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau cymorth cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol yng Nghymru, gyda chymorth arbenigwyr mewn diogelu ac amddiffyn oedolion.

Roedd y seminarau wedi'u hanelu at bobl sy'n gweithio'n uniongyrchol i amddiffyn pobl hŷn, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar lefel strategol, fel Prif Weithredwyr a llunwyr polisi allweddol mewn Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, Heddluoedd ac amrywiaeth o fudiadau trydydd sector. Daeth 132 o gynrychiolwyr o bob rhan o Gymru i'r seminarau. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd rhoi hawliau cyfartal a llais cryfach i bobl hŷn, yr angen am gydweithio mwy effeithiol i sicrhau bod pobl hŷn yn cael cymorth priodol a'r angen i wella gwybodaeth a dealltwriaeth am gam-drin domestig yn erbyn pobl hŷn.

Bu'r cynrychiolwyr hefyd yn cymryd rhan mewn sesiynau gweithdy a oedd yn edrych ar ffyrdd ymarferol o gydweithio'n fwy effeithiol i gyflawni newid ac i gynnig mwy o amddiffyniad i bobl hŷn.

Dywedodd y cynrychiolwyr fod y seminarau wedi ehangu eu gwybodaeth am raddfa, natur ac effaith y gamdriniaeth y mae pobl hŷn yn ei hwynebu ac y byddant yn meddwl am ba gamau y gall eu sefydliadau eu cymryd i sicrhau bod camdriniaeth yn erbyn pobl hŷn yn cael ei chydabod, ei chofnodi ac yn cael ymateb priodol. Mae cynnydd yn cael ei wneud i ddatblygu cynlluniau gweithredu a fydd yn arwain at ymateb a gwasanaeth gwell i bobl hŷn yng Nghymru.

## **Amddiffyn Pobl Hŷn yng Nghymru: Canllaw i'r Gyfraith**

Mae ail argraffiad o 'Amddiffyn Pobl Hŷn yng Nghymru: Canllaw i'r Gyfraith', a gynhyrchwyd mewn partneriaeth â'r Athro John Williams, Athro yn y Gyfraith, wedi cael ei ddsbarthu'n eang ymhlith gweithwyr proffesiynol yng Nghymru sy'n gweithio ym maes amddiffyn oedolion.

Mae'r Canllaw yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am amrywiaeth o faterion sy'n gysylltiedig ag amddiffyn oedolion, fel hawliau dynol, amddifadu o ryddid a'r system cyfiawnder troseddol, yn ogystal â chyfres o astudiaethau achos sy'n cysylltu deddfwriaeth â sefyllfaoedd go iawn.

Mae'r Canllaw wedi cael ei ddefnyddio gan ymarferwyr gwaith cymdeithasol, staff gofal cymdeithasol, staff meddygol, perchnogion cartrefi gofal, cyfreithwyr a myfyrwyr, yn ogystal â phobl hŷn a'u teuluoedd i leihau'r dryswch sydd ynghlwm wrth y ddeddfwriaeth gyfredol ar amddiffyn oedolion ac i ganfod sut y gall y gyfraith eu cynorthwyo.

### **Llyfryn Gwybodaeth – Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Cymorth a Chefnogaeth i Bobl Hŷn yng Nghymru**

I godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n effeithio ar bobl hŷn, rwyf wedi cynhyrchu llyfryn gwybodaeth dwyieithog sy'n disgrifio'n glir y mathau o gamdriniaeth maent yn ei hwynebu a'r cymorth sydd ar gael i helpu i atal y gamdriniaeth hon, yn ogystal â chynnwys gwybodaeth am sut i gysylltu â Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan.

Hyd yma, mae 25,000 o gopïau o'r llyfryn wedi cael eu dosbarthu yng Nghymru ymhlith ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys Heddluoedd, Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, Cymorth i Fenywod a Gwasanaethau Eiriolaeth.

### **Canllaw ar Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Rwyf wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i gynhyrchu canllaw y bu galw mawr amdano ar gam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn pobl hŷn. Bydd y canllaw yn cael ei anelu at weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n gweithio ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a thai a bydd yn eu helpu i ganfod ac i ymateb yn well i gam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn pobl hŷn.

Bydd y gwaith hwn yn gymorth i ddeall yn well yr hyn sy'n wynebu pobl hŷn pan fyddant yn profi cam-drin domestig a thrais rhywiol a bydd yn sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod yn ddioddefwyr, sy'n hanfodol os ydynt am gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt ar adeg mor drawmatig yn eu bywydau.

### **Mynd i'r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu**

Mae pobl hŷn yn teimlo bod gwasanaethau ac yn wir rhai carfanau o gymdeithas yn gwahaniaethu yn eu herbyn a hynny oherwydd eu hoed,



a dim arall. Hefyd, gall yr iaith a ddefnyddir wrth sôn am bobl hŷn fod yn ddifriol ac amharchus yn aml.

Fel Comisiynydd, rwyf wedi datgan yn glir bod yn rhaid i ni ddathlu'r ffaith ein bod yn genedl o bobl hŷn a bod yn rhaid i bortreadau o bobl hŷn fod yn gytbwys ac adlewyrchu eu gwir werth i gymdeithas. Rwyf yn manteisio ar bob cyfle i herio meddylfryd sy'n gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd yn enwedig ar sail oed ac i bwysleisio gwerth ein pobl hŷn, gan dynnu sylw at yr angen am agwedd sy'n seiliedig ar asedau. Rwyf hefyd yn gweithio i ehangu gwybodaeth a ffyrdd o feddwl am sut i adnabod a mynd i'r afael â gwahaniaethu a gwahaniaethu ar sail oed.

Yn 2013-14, bŵm yn treialu cyfres o seminarau hyfforddi i helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall yn well beth yw effaith gwahaniaethu ar sail oed a sut y mae hynny'n cyfrannu at wahaniaethu. Yn dilyn adborth positif iawn am yr hyfforddiant, a gwblhawyd gan 147 o weithwyr proffesiynol, penderfynais gyflwyno'r hyfforddiant, a oedd yn ddi-dâl, yn fwy eang yn ystod 2014-15. Mae'r seminarau wedi helpu cynrychiolwyr i ddeall yr effaith y gall gwahaniaethu ar sail oed ei chael ar unigolion, teuluoedd a chymunedau a sut y gall gwahaniaethu a gwahaniaethu ar sail oed arwain at wasanaethau cyhoeddus nad ydynt yn diwallu anghenion pobl hŷn.

Roedd y seminarau hefyd yn cynnwys nifer o ymarferiadau a oedd yn rhoi cyfle i'r cynrychiolwyr feddwl yn ymarferol am sut y gallant ddatblygu cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus sy'n gyfeillgar i oed. Hyd yma, mae cyfanswm o 264 o weithwyr proffesiynol o gyrrff fel Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a Mudiadau'r Trydydd Sector wedi cwblhau'r hyfforddiant, ac mae llawer wedi dweud eu bod yn rhannu'r hyn maent wedi'i ddysgu â chydweithwyr, yn annog cydweithwyr i fabwysiadu agwedd fwy positif tuag at oed ac yn herio arferion gwahaniaethol. Mae'r cynrychiolwyr hefyd wedi croesawu'r ffaith bod yr hyfforddiant yn rhoi pwyslais ar ddull seiliedig ar hawliau a sut y gallent ddefnyddio hwn i arwain at newid.

### **Ymestyn allan a gwrando ar bobl hŷn ledled Cymru**

Mae fy nhîm a minnau wedi parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl hŷn ledled Cymru i sicrhau eu bod yn gwybod am fy ngwaith a sut y gallaf eu helpu. Drwy fy ymgysylltiad, rwyf wedi sicrhau hefyd bod lleisiau pobl hŷn yn dal i fod yn ganolog i bopeth a wnaf, gan arwain a ffurfio fy ngwaith fel Comisiynydd.

## Sioe Deithiol Ymgysylltu

Eleni, mae fy nhîm a minnau wedi cwrdd â 216 o grwpiau ledled Cymru, gan deithio dros 23,000 o filltiroedd i gyrraedd mwy na 5,700 o bobl hŷn. Mae fy nhîm a minnau wedi ymweld ag ardal pob Awdurdod Lleol yng Nghymru, gan gwrdd a siarad â phobl hŷn mewn amrywiaeth o ddiwyddiadau, o gynadleddau mawr i gyfarfodydd fforymau i grwpiau cymorth lleol a grwpiau cymdeithasol.

Roedd cwrdd â chynifer â hyn o grwpiau, sy'n gynnydd o'i gymharu â 2013-14, pan gyfarfu fy nhîm a minnau â 202 o grwpiau, wedi bod yn gryn gamp gan fod llawer o'm tîm wedi bod wrthi'n brysur yn ymweld â chartrefi gofal fel rhan o'm Hadolygiad o Gartrefi Gofal yn ystod mis Ebrill a mis Mai.

Er mwyn sicrhau bod fy nhîm a minnau'n ymgysylltu ag ystod mor amrywiol â phosibl o bobl hŷn, rydym yn ymweld â'r mannau hynny ble maent yn byw eu bywydau, fel cartrefi gofal, cynlluniau tai gofal ychwanegol, grwpiau cymorth, grwpiau gofalwyr, caffis dementia, canolfannau dydd a chlybiau cymdeithasol.

Rwyf wedi trefnu nifer o ymweliadau ar y cyd ag Aelodau Cynulliad, Arweinydd Cynghorau a Chynghorwyr mewn etholaethau ledled Cymru i glywed gan bobl hŷn am y materion hynny sy'n bwysig iddynt yn eu cymunedau ac i sicrhau bod y bobl sy'n llunio polisiau a gwneud penderfyniadau yn clywed drostynt eu hunain am brofiadau pobl hŷn a'r heriau maent yn eu hwynebu.

Rwyf wedi meithrin cysylltiadau ardderchog â sefydliadau sy'n gweithio ar ran pobl â nodweddion gwarchoddedig i sicrhau fy mod yn ymgysylltu â rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml. Yn ystod y flwyddyn mae fy nhîm a minnau wedi cwrdd â grwpiau fel:

- BAWSO
- Cymdeithas Henoed Tsieineaidd Caerdydd
- Grwpiau Cymunedau yn Gyntaf
- Cyfle i Bawb
- Men in Sheds
- Aelodau Cymuned Sipsiwn Teithwyr Caerdydd
- Fforwm BME 50+ Casnewydd
- Tawe Butterflies (Trefnwyr Gŵyl Drawsrywiol Swansea Sparkles)
- Grŵp Pobl Hŷn Unity LGBT
- Sefydliad y Merched



## Ymgysylltu Ehangach

Ochr yn ochr â'm Sioe Deithiol Ymgysylltu, rwyf wedi parhau i weithio â sefydliadau ffurfiol sy'n cynrychioli pobl hŷn, fel Confensiwn Cenedlaethol y Pensiynwyr, Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru, Senedd Pobl Hŷn Cymru, Cynghair Pobl Hŷn Cymru a'r Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol.

Rwyf hefyd wedi parhau i weithio ag ystod eang o fudiadau'r trydydd sector ledled Cymru, fel Cynghair Henoed Cymru, Gofal a Thrwsio Cymru, Age Cymru, Cymdeithas Alzheimer, RNIB Cymru ac Action on Hearing Loss Cymru, yn ogystal â chyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan draddodi prif areithiau mewn cynadleddau a digwyddiadau, a chwrdd ag unigolion allweddol o'r sefydliadau hyn.

Rwyf hefyd yn ymweld â gwasanaethau a staff rheng flaen yn rheolaidd, gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa ac ymweliadau nos, i weld drosof fy hun yr heriau maent yn eu hwynebu, y gwahaniaeth maent yn ei wneud ac i ba raddau y mae newid gwirioneddol yn digwydd yn rheng flaen gofal a chymorth.

Mae'r gwaith hwn yn fy ngalluogi i gasglu gwybodaeth a dealltwriaeth am y materion a'r heriau mae pobl hŷn yn eu hwynebu, hyrwyddo arferion da a chanfod cyfleoedd i gydweithio. Drwy weithio mewn partneriaeth, gallwn gefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau a'n hamcanion i gyflawni newid gwirioneddol i bobl hŷn.

Roedd fy nhîm hefyd yn bresennol ar stondinau gwybodaeth mewn cynadleddau, dyddiau gwybodaeth a digwyddiadau cymunedol ledled Cymru, gan ddarparu gwybodaeth, cyngor ac adnoddau defnyddiol yn uniongyrchol i bobl hŷn ac i'r sawl sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cy-northwyo.

## Taflen wybodaeth

Er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn gwybod am fy rôl, y gwaith rwyf yn ei wneud a'r ffyrdd a ddefnyddir gennyf i ddarparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol iddynt, rwyf wedi cynhyrchu taflen wybodaeth newydd sydd wedi cael ei dosbarthu i bob cwr o Gymru.

Mae'r taflenni ar gael yn Gymraeg, Saesneg, Bengaleg, Gwjarati, Soma-lieg ac Wrddw, yn ogystal â fersiynau print bras a sain. Mae dros

13,000 o gopiâu o'r daflen wedi cael eu dosbarthu i bob meddygfa deulu, fferyllfa a deintyddfa yng Nghymru, yn ogystal â thai gwarchod, cyfleusterau gofal ychwanegol ac Asiantaethau Gofal a Thrsio yn ardal pob Awdurdod Lleol.

## Y Cyfryngau

Mae parhau â'm gwaith gyda'r cyfryngau wedi rhoi cyfle i mi ymestyn allan at niferoedd mawr o bobl hŷn ar hyd a lled Cymru fel eu bod yn gwybod am y gwaith rwyf yn ei wneud i hybu newid ac i wneud gwahaniaeth yn eu bywydau.

Rwyf wedi cynnal presenoldeb cryf yn y cyfryngau, ar y teledu a'r radio, gan ymddangos sawl tro ar BBC Wales Today, newyddion ITV Wales, Newyddion S4C, BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru.

Rwyf hefyd wedi sicrhau llawer o sylw mewn papurau newydd dyddiol, fel yr Western Mail, Daily Post, South Wales Evening Post, South Wales Argus a'r South Wales Echo, yn ogystal â phapurau newydd wythnosol ledled Cymru.

Hefyd, rwyf wedi dal ati i ysgrifennu colofnau ac erthyglau ar gyfer amrywiaeth eang o gyhoeddiadau eraill, fel cyfnodolion, cylchgronau, blogiau a chyhoeddiadau Cymraeg.

## Arolwg Omnibws

Er mwyn asesu pa mor effeithiol ydw i am gyfathrebu ac ymgysylltu â phobl hŷn yng Nghymru a'u hymwybyddiaeth o'm rôl a'm gwaith, comisiynwyd arolwg\* gennyf i gasglu eu barn. Yn ystod mis Tachwedd 2014, cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb â 391 o bobl 55+ oed ledled Cymru. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd yn cynnwys a oedd pobl wedi clywed am y Comisiynydd Pobl Hŷn, sut roeddent wedi clywed am fy ngwaith ac a oeddent yn teimlo fy mod yn gwneud gwahaniaeth.

- Roedd 1 o bob 3 wedi clywed am y Comisiynydd Pobl Hŷn
- Roedd 85% o'r rheini a oedd wedi clywed am y rôl wedi gwneud hynny drwy'r teledu, y radio neu'r papurau newydd
- Roedd 75% yn cytuno y dylid cael Comisiynydd Pobl Hŷn

Byddaf yn comisiynu arolwg arall ym mis Tachwedd 2015 ac yn gofyn yr un cwestiynau. Drwy hyn, byddaf yn gallu monitro a chymharu lefelau ymwybyddiaeth ymhlith pobl hŷn o'm rôl a'm gwaith.

\* Arolwg Omnibws Beaufort Research; cynhaliwyd y gwaith maes 17-28 Tachwedd 2014

## Cefnogaeth i unigolion

Mae fy Nhîm Gwaith Achos Amddiffyn a Chraffu yn cynnig cefnogaeth, cymorth ac eiriolaeth uniongyrchol i bobl hŷn a'u teuluoedd ledled Cymru. Maent yn camu i mewn pan fydd pobl hŷn a'u teuluoedd yn teimlo bod angen fy nghymorth arnynt i herio penderfyniadau ac arferion gweithio cyrff yn y sector cyhoeddus.

Bydd unigolion sy'n cysylltu â'm Tîm Gwaith Achos Amddiffyn a Chraffu i gael cymorth yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt o fewn fy mhwerau cyfreithiol, sydd wedi'u diffinio gan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'r Ddeddf yn amlinellu pa gamau y gallaf eu cymryd i sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo pan fydd cyrff cyhoeddus yn gweithredu eu swyddogaethau, a'r cymorth y gallaf ei roi'n uniongyrchol i bobl hŷn.

Yn ystod 2014-15, rhoddais gymorth, cefnogaeth ac eiriolaeth i 525 o bobl hŷn. Y pynciau mwyaf cyffredin y bu fy nhîm yn ymdrin â hwy oedd:

Pwnc	Nifer yr ymholiadau a gafwyd	Canran o'r cyfanswm a gafwyd (%)
Gofal	92	17.5
Gofal Preswyl	57	10.9
Trafnidiaeth	37	7.0
Cymuned	34	6.5
Tai	34	6.5
Arall	271	51.6

## Y prif dueddiadau a ddaeth i'r amlwg

Drwy gyfrwng fy ngwaith achos, mae amrywiaeth eang o faterion wedi dod i'm sylw. Mae'n amlwg bod rhai prif faterion yn broblem i nifer o bobl hŷn a'u teuluoedd mewn mwy nag un rhan o Gymru, sy'n golygu bod y broblem yn un fwy systemig. Dyma'r prif faterion a ddaeth i'r amlwg:

- Cyfathrebu gwael
- Dadrymuso a phobl ddim yn gwrando arnynt
- Cymhlethdod systemau a phrosesau
- Oedi annerbyniol cyn gwneud penderfyniadau
- Amseroedd aros am wasanaethau

Mae fy ngwaith achos yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth am brofiadau pobl hŷn. Pan fydd unigolion yn codi mater sy'n fwy perthnasol i bobl hŷn, mae'n bosib y bydd fy nhîm a minnau'n gwneud gwaith pellach,

mwy strategol i sicrhau bod sylw'n cael ei roi'r mater. Am y tro cyntaf eleni rwyf yn cyhoeddi Coflyfr ochr yn ochr â'm Hadroddiad Effaith a Chyrhaeddiad. Mae hwn yn gyfle i mi gynnwys mwy o fanylion am sut rwyf yn mynd ati i wneud fy ngwaith achos, y mathau o achosion rwyf yn gweithredu arnynt, y gwahaniaeth rwyf wedi'i wneud i unigolion, a'r themâu ehangach sydd wedi dod i'r amlwg.

### **Dylanwadu ar Ddeddfwriaeth, Polisiâu ac Arferion Gweithio Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru**

Gan adeiladu ar fy ngwaith i sicrhau bod pobl yn clywed ac yn gwrandao ar leisiau pobl hŷn, rwyf wedi parhau i gwrdd â Gweinidogion Cymru fel bod y polisiâu a'r arferion gweithio'n adlewyrchu'r problemau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu a'u bod yn diwallu eu hanghenion. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn gyfle i mi fynegi pryderon am feysydd deddfwriaethol nad ydynt yn rhoi digon o sylw i bobl hŷn ac i gytuno ar y ffyrdd mwyaf effeithiol ymlaen i gyflawni'r newid sydd ei angen.

Rwyf hefyd wedi cwrdd â Chadeiryddion nifer o Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol i dynnu sylw at feysydd ymchwilio ac ymchwiliadau posibl ac rwyf wedi croesawu nifer o ymchwiliadau gan bwyllgorau a oedd yn arbennig o berthnasol i bobl hŷn. Byddaf yn parhau i weithio â Phwyllgorau'r Cynulliad i wneud y gorau o botensial ein rolau craffu ein hunain drwy gydweithredu agos.

Rwyf wedi cwrdd â'r Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol i sicrhau bod Cyfarwyddwyr Cyffredinol yn deall yn well bod materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru yn berthnasol i fwy na dim ond iechyd a gofal cymdeithasol, ond eu bod yn berthnasol i ystod lawn eu portffoli-os.

### **Ymateb i Ymgynghoriadau**

Drwy gydol 2014-15, bŵm yn ymateb i amrywiaeth eang o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, gan ddefnyddio'r profiadau mae pobl hŷn o bob cwr o Gymru wedi eu rhannu â mi, i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod y newidiadau maent eisiau ac angen eu gweld yn cael eu gwireddu:

- Ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Bil Isafswm Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru), Mehefin 2014
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer Bil Iechyd Cyhoeddus, Mehefin 2014
- Fframwaith Sgiliau a Datblygu Gyrfa GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cefnogi Gofal Iechyd Clinigol, Gorffennaf 2014

- Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol, Medi 2014
- Ymchwiliad i'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Medi 2014
- Ymchwiliad i gynnig Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16, Medi 2014
- Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru, Medi 2014
- Adolygiad o'r Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, Medi 2014
- Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol, Hydref 2014
- Datblygu Polisi Gweithgarwch Corfforol, Tachwedd 2014
- Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Ymgynghoriad ar y Rheoliadau a'r cod ymarfer, Chwefror 2015.

### **Tystiolaeth a Gyflwynwyd i Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Trwy gydol 2014-15, bu fy nhîm a minnau'n rhoi tystiolaeth lafar i nifer o Ymchwiliadau'r Cynulliad Cenedlaethol:

- Ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Mehefin 2014
- Ymchwiliad i Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd yng Nghymru, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Gorffennaf 2014
- Craffu ar Gyfrifon y Comisiynydd 2013-14, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Hydref 2014
- Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru, Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Tachwedd 2014
- Craffu Cenedlaethol ar Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Tachwedd 2014
- Ymchwiliad i Gyfleoedd Cyflogaeth i Bobl dros 50 Oed, Y Pwyllgor Menter a Busnes, Ionawr 2015

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Er fy mod wedi cefnogi nodau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n adlewyrchu blaenoriaeth un fy Fframwaith ar gyfer Gweithredu 2013-17 i ymgorffori lles pobl hŷn yng nghalon gwasanaethau cyhoeddus, mynegais fy mhryderon wrth y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol am yr effaith bosibl ar hawliau gofalwyr, yn dilyn y sylwadau a gefais gan grwpiau gofalwyr yng Nghymru.

Roeddwn yn bryderus na fyddai Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), fel y cawsant eu drafftio'n wreiddiol, yn ddigonol i ddiogelu sefyllfa gofalwyr, a'r rhai maent yn gofalu amdanynt. Roeddwn yn bendant na ddylid tanseilio dyletswyddau i amddiffyn a diogelu gofalwyr di-dâl a oedd wedi'u cynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn dilyn gwelliant sydd â'r nod o sicrhau bod hawliau gofalwyr yn cael eu hailadrodd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), byddaf yn parhau i adolygu a yw'r bwriad i warchod yr hawliau a roddwyd i ofalwyr o dan y Mesur Gofalwyr wedi cael ei gyflawni.

### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Rwyf eisoes wedi croesawu'r bwriad sydd wrth wraidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a llawer o'r manylion a geir ynddi. Fodd bynnag, bydd i ba raddau y bydd y bwriad hwn yn cael ei wireddu i bobl hŷn mewn llawer o achosion, yn ddibynnol ar y rheoliadau a'r codau ymarfer a ddatblygwyd sy'n sail i'r Ddeddf a sut y cânt eu gweithredu gan gyrff cyhoeddus. Byddaf yn parhau i ddangos diddordeb mawr yn y pum maes canlynol:

- Diogelu
- Eiriolaeth
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Y Broses Asesu a Meini Prawf Cymhwysedd
- Codi Tâl am Wasanaethau

Rwyf wedi ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriadau yn ymdrin â'r rheoliadau a'r codau ymarfer sy'n gysylltiedig â diogelu, gwybodaeth, cyngor a chymorth, y broses asesu a meini prawf cymhwysedd. Hefyd, rwyf wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a swyddogion y llywodraeth i sicrhau bod safbwynt pobl hŷn yn achos y dyletswyddau hyn wedi'u deall yn llawn a'u bod yn cael eu hadlewyrchu yn y manylion sy'n sail i'r Ddeddf.

Byddaf hefyd yn parhau i ddangos diddordeb arbennig yn y ffordd y mae'r ddyletswydd i roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yn cael ei gweithredu ac i ba raddau y bydd yr egwyddorion hyn yn sail i ddarparu gofal cymdeithasol yn y dyfodol.



Er nad yw'r manylion ar godi tâl am wasanaethau gofal a chymorth wedi'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghori arnynt eto, rwyf wedi cynghori Llywodraeth Cymru drwy'r Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Talu am Ofal a thrwy drafodaethau manwl â swyddogion Llywodraeth Cymru ar y prif faterion mae pobl hŷn wedi'u crybwyll wrthyf. Rwyf wedi datgan yn glir bod yn rhaid cadw'r cap ar uchafswm wythnosol am ofal yn y cartref a rhaid i unrhyw drefniadau yn y dyfodol ar gyfer talu am ofal preswyl ystyried tegwch a chyflwyno ffordd eglur a chredadwy ymlaen na fydd yn atal pobl hŷn rhag symud i ofal preswyl os dyna fydd yr opsiwn gorau ar eu cyfer. Rwyf yn aros am gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ar gyfer talu am ofal yn y cartref a gofal preswyl. Rwyf hefyd wedi datgan yn glir na ddylid cyflwyno taliadau ar gyfer gwasanaethau ataliol gan fod perygl iddynt fod yn rhwystr i bobl hŷn a mynd yn groes i'r bwriad sydd wrth wraidd y polisi.

Rwyf am sicrhau bod yr egwyddorion sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn benodol 'llais cryf a rheolaeth wirioneddol', yn cael eu gwireddu ar gyfer pobl hŷn. Rwyf wedi bod yn bendant o'r cychwyn bod eiriolaeth annibynnol, er nad yw'n briodol i bawb, yn hanfodol i rai unigolion mewn amgylchiadau penodol os yw'r bwriad hwn i gael ei wireddu. Byddai hyn o fudd i'r unigolyn ac i gyrff cyhoeddus, yn ogystal â'r coffrau cyhoeddus. Yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru, rwyf eisoes wedi ei chynghori ar y dyletswyddau i gynnig eiriolaeth annibynnol ac rwyf wedi parhau i drafod â hi sut y dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y manylion sy'n sail i'r Ddeddf i sicrhau bod bwriad Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, o ran llais cryf a rheolaeth, parch a diogelwch gwirioneddol yn cael ei wireddu.

O ganlyniad i gyllid sylweddol gan y Gronfa Loteri Fawr, mae gan Gymru sylfaen eiriolaeth sylweddol ac un sy'n cael effaith ac sy'n dwyn budd gwirioneddol i unigolion sy'n canfod eu hunain yn yr amgylchiadau anoddaf. Mae hyn yn rhoi Cymru mewn sefyllfa gref i ymateb i ddyletswyddau sy'n gysylltiedig ag eiriolaeth o fewn y rheoliadau a fydd yn sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fodd bynnag, ni fydd y rheoliadau, a ddylai roi'r dyletswyddau hyn ar waith, yn dod i rym tan 2016.

Gan mai dim ond at 2014 roedd cyllid tair blynedd y Gronfa Loteri Fawr ar gael, byddai hyn wedi arwain ar gyfnod o 18 mis pan na fyddai gwasanaethau eiriolaeth ar gael i helpu pobl hŷn. Roedd hyn yn golygu bod perygl gwirioneddol y byddai'r sylfaen sgiliau eiriolaeth yng Nghymru yn cael ei cholli. Felly, bŵm yn gweithio ag eiriolwyr annibynnol



a'r Gronfa Loteri Fawr, a llwyddwyd i sicrhau cyllid ychwanegol sylweddol gan y Gronfa Loteri Fawr i gynnal llawer o'n sylfaen sgiliau eiriolaeth yn ystod y cyfnod nes y byddai dyletswyddau newydd posibl yn dod i rym.

Er fy nghefnogaeth gyhoeddus i'r bwriad sydd wrth wraidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, disgwyliaf iddo gael ei wireddu mewn ffordd sy'n adlewyrchu bywydau pobl hŷn, y math o gymorth sydd ei angen arnynt ac yn y ffyrdd y mae angen i'r cymorth hwnnw gael ei ddarparu ar eu cyfer. Byddaf yn defnyddio fy swyddogaeth i adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith os, yn fy marn i, nad yw'r meysydd rwyf yn rhoi fy sylw iddynt yn cael eu gwireddu fel hyn.

### **Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**

Rwy'n falch bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi pasio Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn ddiweddar. Bydd hyn yn newid y seilwaith yng Nghymru drwy sicrhau arweiniad mwy cadarn a sicrhau ffocws cryfach a mwy cyson i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Rwyf wedi ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rwyf hefyd wedi cysylltu â Thîm Trais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig Llywodraeth Cymru, a byddaf yn parhau i gael cyswllt â'r tîm er mwyn canolbwyntio drwy'r adeg ar bobl hŷn.

Bydd fframwaith hyfforddi cenedlaethol yn sicrhau hyfforddiant cyson ac o safon, sydd wedi bod ar goll ers cryn amser yn anffodus. Rwyf wedi nodi'n glir bod gofyn i'r hyfforddiant fod yn berthnasol i oedran er mwyn ystyried materion pobl hŷn, yn arbennig y rhai hynny sydd â dementia a/neu nam ar eu synhwyrau. Hefyd, tynnais sylw at y bylchau sydd ym map 'Taith y Dioddefwr' ar hyn o bryd. Nid oedd yn cynnwys cam-drin pobl hŷn nac yn sôn am ddiogelu oedolion.

Drwy fy ngwaith parhaus gyda Llywodraeth Cymru, rwy'n disgwyl gweld yr ymateb ar gyfer pobl hŷn sy'n dioddef neu sydd wedi dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn gwella drwy'r amser.

## Y Ffordd Ymlaen

Mae'r materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yn niferus ac amrywiol ac nid oes amheuaeth nad yw'r cyfyngiadau ariannol presennol yn cael effaith sylweddol ar lawer o bobl hŷn.

Mae ystod y materion y gallwn roi sylw iddynt yn enfawr, ond rhaid i mi sicrhau fy mod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hynny y mae pobl hŷn wedi dweud wrthyf sy'n bwysig iddynt, y blaenoriaethau yn fy Fframwaith ar gyfer Gweithredu 2013-17. Mae llawer o'm gwaith, o flwyddyn i flwyddyn, yn ddilyniant o weithredu ar flaenoriaethau penodol yn fy Fframwaith, ond bydd rhai meysydd yn cael sylw mwy blaenllaw yn fy rhaglen waith ar sail eu pwysigrwydd neu ar brofiadau pobl hŷn.

Yn y flwyddyn nesaf bydd fy ngwaith yn cynnwys pwyslais ar y canlynol:

- Bywydau pobl â dementia a'r sawl sy'n gofalu amdanynt
- Gwahaniaethu a gwahaniaethu ar sail oed y mae pobl hŷn yn eu hwynebu
- Diogelu ac atal troseddau a cham-drin yn erbyn pobl hŷn
- Dilyniant i'r gwaith sy'n gysylltiedig â'm Hadolygiad o Gartrefi Gofal
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – datblygu rheoliadau a gweithredu
- Monitro a chraffu ar gyfrif cyhoeddus a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt
- Heneiddio'n Dda yng Nghymru

Byddaf yn parhau i weithio ag amrywiaeth eang o gyfrif i ehangu gwybodaeth a ffyrdd o feddwl am y materion sy'n wynebu pobl hŷn ac i newid arferion gweithio. Fodd bynnag, byddaf hefyd yn parhau, os dyna'r opsiwn fwyaf priodol sydd ar gael, i ddefnyddio fy mhwerau cyfreithiol i arwain at y newid y mae pobl hŷn am ei weld ac y mae ganddynt hawl i'w weld.

## Adolygiad o Flwyddyn Ariannol 2014-15

Roedd y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn dangos mai'r gwariant net ar gyfer 2014-15 yw £1.748 miliwn (2013-14: £1.766 miliwn ar ôl incwm yswiriant).

Roedd £0.281 miliwn yn y cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn (2013-14: £0.279 miliwn). Mae angen i mi gadw lefel resymol o gronfeydd wrth gefn er mwyn gallu ymarfer swyddogaethau statudol y Ddeddf ac, yn bwysicach fyth, gweithredu ar unrhyw faterion pwysig,

brys ac annisgwyl sy'n dod i'm sylw. Mae'n bur debyg y bydd costau ychwanegol o'r fath yn gysylltiedig ag achosion cyfreithiol ac adnoddau staff ychwanegol. Rwyf yn defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hefyd i ategu rhaglenni gwaith anghylchol yn 2015-16 ac yn y dyfodol. Amlinellwyd hyn yn fy Amcangyfrif i'r Gweinidogion a gyflwynwyd ym mis Hydref 2014. Mae hyn ar gael ar fy ngwefan.

## ADRODDIAD GWEITHREDOL

### Gweithio yn y Comisiwn

Yn ystod 2014-15, cyflogais 27.94 o staff yn cyfateb i amser llawn ar gyfartaledd (26.41 yn 2013-14). Roedd y Tîm Rheolaeth Strategol a oedd yn gweithio gyda mi yn ystod 2014-15 yn cynnwys y canlynol:

Alison Phillips	Dirprwy Gomisiynydd Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad
Kelly Davies	Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Daisy Cole	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso
Anna Buchanan	Cyfarwyddwr Amddiffyn, Craffu a Hawliau Dynol Gadawodd ar 21 Ebrill 2014
Clare Lane	Cyfarwyddwr Amddiffyn a Chraffu Ymunodd ar 21 Gorffennaf 2014

Y gyfradd absenoldeb gyfartalog oherwydd salwch fesul aelod o staff oedd 6.26 diwrnod (4.2 diwrnod yn 2013-14); cynnydd bach yn ymwneud â salwch nad yw'n gysylltiedig â gwaith. Rwyf wedi ymrwymo i iechyd a lles fy staff ac mae gennyf bolisi absenoldeb salwch cynhwysfawr. Rwyf hefyd yn cefnogi cyflogeion i gadw cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd drwy weithredu system amser hyblyg ac yn rhoi cyfleoedd i weithio patrymau gwaith hyblyg. Rwyf wedi cyflwyno Rhaglen Cymorth i Weithwyr sy'n gyfrinachol ac am ddim i bob aelod o staff.

Cafodd y sefydliad ei ail-asesu ar gyfer statws Buddsoddwyr mewn Pobl gan ennill y lefel Arian ym mis Mehefin 2014. Dyma oedd geiriau'r Asesydd:

*Mae buddsoddiad y sefydliad yn ei bobl yn werthfawr ac yn arwain at ganlyniadau gwerth chweil megis lefelau uchel o gymhelliant, ymgysylltiad cryf, trosiant isel o weithwyr, lefelau absenoldeb isel, sylfaen wybodaeth sy'n ehangu drwy'r amser, parch ac ystyriaeth y naill i'r llall ac ethig da o weithio mewn tîm.*

*Mae pobl yn credu eu bod yn rhan o'r broses o nodi gwelliannau yn y modd y maent yn cael eu rheoli a'u datblygu drwy, er enghraifft, allu rhannu adborth yn agored mewn cyfarfodydd, neu mewn sesiynau un-i-un gyda'u rheolwyr a'r tîm, drwy ymateb i arolygon staff a drwy system flynyddol i adolygu perfformiad a'r cyfarfodydd interim canol-blwyddyn.*

*Nid oedd amheuaeth o gwbl gan yr Asesydd, yn enwedig yn sgil y dystiolaeth lafar, fod y sefydliad yn lle gwych i weithio ynddo oherwydd y gwelliannau parhaus yn y ffordd maent yn cael eu rheoli a'u datblygu.*

Dyma rai o'r cryfderau a'r enghreifftiau o arfer da a nodwyd gan yr Asesydd:

- Mae'r cyfarwyddwyr yn gweithio mewn modd proffesiynol a chynnes ac yn fodolau rôl gwych ar gyfer yr ymddygiad, y gwerthoedd a'r ffordd o weithio y mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gofyn amdano. Ar yr un pryd, mae'n hawdd mynd at reolwyr llinell unigol sy'n dangos empathi at staff ond hefyd yn defnyddio dulliau rheoli perfformiad effeithiol.
- Gwelwyd bod gan y staff ymlyniad cryf at eu sefydliad, ei ethos a'i werthoedd, ynghyd â safon uchel o broffesiynoldeb ac ymgysylltiad ar bob lefel.
- Gwelwyd arfer gorau yn y broses Recriwtio a Dethol.
- Mae cysylltiadau clir rhwng strategaethau unigol e.e. arweinyddiaeth a rheolaeth, dysgu a datblygu, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, recriwtio a dethol ayb, a'r strategaeth gyffredinol, y Fframwaith ar gyfer Gweithredu.

Yn dilyn ailasesiad ym mis Chwefror 2015, cafodd y sefydliad Wobr Aur lechyd y Gweithle Bach. Yn eu hadroddiad, dywedodd yr aseswyr y canlynol:

*Mae'n glir ...fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gyflogwr delfrydol. Mae pob elfen o les cyflogeion yn cael sylw llawn. Yn yr arolwg staff a gynhaliwyd ychydig dros flwyddyn yn ôl, roedd staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn deall sut y maent yn cyfrannu at lwyddiant y busnes, a'u bod yn mwynhau'r hyn a wnânt. Mae'r diwylliant yn y sefydliad yn arwain at amgylchedd lle mae'r staff yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt ac yn eu parchu. Mae staff yn gallu cyfrannu at ddatblygiad materion yn y busnes, rhai ffurfiol ac anffurfiol, mewn sawl ffordd. Mae amrywiaeth o bolisiau'n bodoli yn y sefydliad i gefnogi lles y staff. Mae'r polisiau hyn yn glir iawn ac yn hawdd eu darllen.*

Ym mis Ionawr 2015, daeth y sefydliad yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig. Mae hyn yn golygu bod pob aelod o staff yn y sefydliad yn

ennill y Cyflog Byw, nid dim ond yr isafswm cyflog. Mae'r Cyflog Byw yn seiliedig ar gost byw yn y DU.

Yn ystod y flwyddyn mae staff wedi gwneud amrywiaeth o weithgareddau dysgu a datblygu sy'n berthnasol i'w rolau ac mae pob aelod o staff wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar y Ddeddf Hawliau Dynol, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a sgiliau cyfathrebu, yn ogystal â'r diweddaraf am y Cynllun Iaith Gymraeg, Rheoli Gwybodaeth, Cod Ymddygiad a Mynegi Pryderon. Mae'r staff i gyd yn cael eu gwerthuso unwaith y flwyddyn.

### Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'm cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu i fonitro ac adolygu prosesau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod annibynnol.

Ian Summers	Penodwyd hyd at 31 Mawrth 2015 Penodwyd yn Gadeirydd o 1 Ebrill 2014 ymlaen
Kenneth Jones	Estynnwyd aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2016
Eifion Pritchard	Penodwyd hyd at 31 Mawrth 2015
Mutale Merril	Penodwyd o 1 Mehefin 2014 hyd at 31 Mai 2018

### Yr iaith Gymraeg

Rwyf wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd y sefydliad, wrth gyflawni busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd. Yn ystod 2014-15, rwyf wedi ymateb i geisiadau am wybodaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â gweithredu Safonau'r Gymraeg newydd. Rwyf wedi cymryd pob cam posibl i hyrwyddo'r Gymraeg; mae hyn yn cynnwys hyrwyddo Cynllun Iaith Gymraeg, cadw nifer o staff dwyieithog, annog cyflogeion i ddysgu Gymraeg a gweithredu amgylchedd gweithio dwyieithog.

Yn fy Nghynllun Iaith Gymraeg, dywedir y byddaf yn darparu adroddiadau monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun. Yn ystod 2014-15, rwyf wedi cymryd rhan yn yr ail gylch o ymchwiliadau i safonau gan Gomisiynydd y Gymraeg. O ganlyniad, ac oherwydd amseriad yr ymchwiliadau hynny, nid wyf wedi

darparu adroddiad monitro blynyddol eleni. Yn y man, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r wybodaeth a ddarparwyd o ganlyniad i'r ymchwiliadau i safonau ac yn penderfynu a oes angen cael rhagor o wybodaeth, yn benodol ar weithredu fy Nghynllun Iaith Gymraeg.

### **Trefniadau Pensiwn**

Rwyf fi a'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gennyf yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir manylion pellach yn yr Adroddiad Taliadau.

### **Cyfle Cyfartal**

Rwyf wedi ymroi i gydraddoldeb cyfle ac yn ceisio cyflogi gweithlu amrywiol. Caiff pob cais ei ystyried ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal i gael swydd a dyrchafiad ar sail ei allu, ei gymwysterau a'i addasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ni fydd unrhyw ymgeisydd am swydd na chyflogai yn derbyn triniaeth lai ffafriol ar sail oedran, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig neu batrymau gwaith, ac ni fydd unrhyw unigolyn yn cael ei roi dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion na ellir dangos eu bod yn gyfiawn. Hyrwyddir cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff, ac mae buddion megis Cynlluniau Talebau Gofal Plant a Beicio i'r Gwaith ar gael iddynt hefyd.

Yn ystod 2014-15 cyhoeddais fy Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb sydd ar gael ar fy ngwefan.

### **Cynaliadwyedd**

Rwyf wedi ymrwymo i arferion amgylcheddol da. Dyma enghreifftiau o'r ffordd rwyf yn gweithredu stiwardiaeth amgylcheddol da:

- Defnyddio ynni – fel un o nifer o denantiaid mewn bloc swyddfeydd bach modern, nid yw'n bosibl bod â rheolaeth lwyr dros y cyfleusterau dŵr, gwres a goleuo. Fodd bynnag, ceir falfiau rheoli thermostatig ar bob gwresogydd, bylbiau arbed ynni, a goleuadau sensitif i symudiad mewn rhai mannau yn amgylchedd y swyddfa.
- Cynllun teithio – yn ystod 2014-15 lluniodd fy staff gynllun teithio gyda'r nod o leihau effaith teithio ac mae'n cynnwys:
  - Cymudo i'r safle ac oddi yno;



- Teithio wrth inni gyflawni fy musnes; a
- Ymwelwyr yn teithio i'r safle ac oddi yno.

Datblygwyd y cynllun gyda chynngor gan Sustrans a Get Travel Wise ac mae'n cyd-fynd â'm nod i hyrwyddo cynaliadwyedd ac iechyd a lles pob aelod o staff. Cafodd y cynllun Wobr Efydd gan Get Travel Wise ym mis Mawrth 2015.

- Rheoli papur – mae'r staff yn gallu defnyddio'r rhyngwrwd a'r e-bost ac yn cael defnyddio mewnrwyd y swyddfa sy'n golygu bod modd cael gafael ar wybodaeth heb yr angen am systemau dosbarthu papur.
- Cynnyrch – anogir cyflenwyr i ddefnyddio nwyddau ecogyfeillgar lle bynnag y bo modd. Rwyf yn defnyddio nwyddau papur amgylcheddol-gadarn megis papur ac amlenni wedi eu hailgylchu.
- Gwaredu Gwastraff – mae gweithdrefnau ar waith i ailgylchu deunyddiau, gan gynnwys papur, cardbord a rhai mathau o blastig. Mae trefniadau hefyd ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff bwyd.

Ceir gwared â phapurau'n cynnwys gwybodaeth sensitif drwy gyfleusterau ailgylchu gwastraff cyfrinachol oherwydd y ddyletswydd i gynnal cyfrinachedd yn ein deddfwriaeth alluogi. Mae gan y swyddfa dystysgrif cyflawniad amgylcheddol sy'n tystio bod ein rhaglen rwygo ac ailgylchu wedi arbed 32 o goed rhag cael eu dinistrio yn 2014-15 (38.5 yn 2013-14).

### **Polisi Taliadau**

Rwyf yn bwriadu cydymffurfio â Chod Talu'n Well Llywodraeth y DU. Y targed yw gwneud taliadau o fewn telerau talu y cytunwyd arnynt neu cyn pen 30 diwrnod i dderbyn anfonebau nad oes dadl amdanynt am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd.

Roedd perfformiad talu'r flwyddyn, ar gyfartaledd, yn 99.66% wedi'u talu ar amser (99.81% yn 2013-14). Ni thalwyd llog yng nghyswllt taliadau hwyr.

### **Trefniadau archwilio**

Caiff y Cyfrifon hyn eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 12 Atodlen 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Cost archwilio cyfrifon 2014-15 yw £14.5k (£14.6k yn 2013-14).

Darparodd Deloitte wasanaethau archwilio mewnol i mi yn 2014-15. Maent wedi cael eu penodi hyd nes 31 Mawrth 2016 gyda'r opsiwn i ymestyn hyn am flwyddyn arall.

Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac Archwilio Mewnol ar gael yn rhan o'r Datganiad Llywodraethu ar dudalen 39.

### **Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd**

Ni chafwyd digwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y flwyddyn a chwblhau'r cyfrifon hyn.

### **Datgelu Gwybodaeth Archwilio Briodol**

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Sarah Rochira**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

**29 Gorffennaf 2015**

## **ATEBOLRWYDD**

### **DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU**

Fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, rwyf fi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, wedi paratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi a Gweinidogion Cymru.

Paratowyd y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, y gwariant net, y sefyllfa ariannol, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol imi gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol:

- Glynw wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir hwy yn *Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth*, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon; a
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw.

Fel y Comisiynydd, rwyf, yn rhinwedd paragraff 11 atodlen 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer fy swydd. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, a thros gadw cofnodion priodol, a diogelu asedau'r Comisiwn, yn cael eu nodi mewn memorandwm a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn nodi ar ba sail y sefydlwyd swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; y ffordd y caiff ei llywodraethu a'i rheoli; a sut rwyf yn atebol am yr hyn a wnaif.

### Rôl y Comisiynydd

Sefydlwyd swydd statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel Corfforaeth Unigol o dan Adran 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Dyma swyddogaethau'r rôl:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Hyrwyddo'r gwaith o ddarparu cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, gan ddileu gwahaniaethu yn eu herbyn.
- Annog arfer da wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru.
- Cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn rwyf fi, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol i reoli adnoddau, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a chanfod a rheoli risgiau a chyfleoedd.

### Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n nodi'r ffordd y mae'r sefydliad yn cael ei lywodraethu a'i reoli. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau sydd yn eu lle, a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad. Mae hefyd yn cynnwys gwerthoedd a diwylliant y sefydliad.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn golygu fy mod yn gallu monitro perfformiad y sefydliad yn erbyn y blaenoriaethau yn fy Fframwaith strategol ar gyfer Gweithredu. Yn benodol, i bwysu a mesur a yw'r perfformiad hwnnw wedi arwain at ganlyniadau gwell i bobl hŷn yng Nghymru ac a yw'r canlyniadau hynny wedi'u cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith llywodraethu hwnnw. Fe'i lluniwyd i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach nag i gael gwared â phob risg o fethu â chyflawni nodau ac amcanion. Felly dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd y gall ei gynnig.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i:

- nodi a blaenoriaethu'r gwaith o reoli risgiau a chyfleoedd wrth geisio cyflawni fy nodau a'm hamcanion,
- pwyso a mesur pa mor debygol yw'r risgiau a'r cyfleoedd hynny o ddigwydd a'u heffaith pe baent yn digwydd, a hefyd
- eu rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

### Fframwaith llywodraethu

Mae'r Comisiynydd yn Gorfforaeth Unigol; felly nid oes Bwrdd fel y byddai rhywun yn ei weld gyda chyrff cyhoeddus eraill. Fel Corfforaeth Unigol a Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb personol dros gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad ond gallaf awdurdodi unrhyw aelod o staff i weithredu fy swyddogaethau.

Yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n rhaid i mi enwebu dirprwy a all ymarfer swyddogaethau statudol y Comisiynydd os daw'r swydd yn wag neu os na fydd y Comisiynydd yn gallu gweithredu unrhyw dro am unrhyw reswm. Rwyf wedi penodi Alison Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad yn Ddirprwy i mi. Byddai meysydd gweithredol eraill o awdurdod sydd wedi'u dirprwyo i'm Cyfarwyddwyr yn cael eu nodi yn nisgrifiad swydd pob rôl unigol. Mae cynllun dirprwyo ariannol ar gael yn fy 'Ngweithdrefn Archebu Nwyddau a Gwasanaethau' sydd hefyd ar gael ar fy ngwefan.

Roedd tair prif ffynhonnell o sicrwydd yn fy fframwaith llywodraethu yn 2014-15, sef:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.
- Darparwr Archwiliad Mewnol.
- Tîm rheoli strategol

Mae gennyf **Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg** (y Pwyllgor) i'm cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu i fonitro ac adolygu prosesau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol.

Oherwydd statws y Comisiynydd fel Corfforaeth Unigol, mae'r Pwyllgor o'r farn bod absenoldeb bwrdd gweithredol (y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fel arfer wedi'i ddewis ohono) wedi creu "bwllch gwybodaeth" i'r aelodau gan nad oes ganddynt gyfrifoldebau a goruchwyliaeth ehangach. Mae'r Pwyllgor wedi datrys y bwllch hwn drwy gynnal trafodaethau ychwanegol a chyflwyniadau gennyf fi a'm staff yn ogystal â chyfarfodydd y Pwyllgor.

Yn ystod 2014-15, cynhaliais dri diwrnod datblygu gyda Chyfarwyddwyr ac aelodau'r Pwyllgor. Defnyddiwyd y dyddiau hyn i wneud y canlynol:

- adolygu a thrafod blaenoriaethau busnes am y flwyddyn;
- nodi a rhoi sylw i'r gwaith o reoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau hynny;
- ystyried effaith gronnus unrhyw rai o'r risgiau a'r cyfleoedd; ac
- adolygu fformat a chynnwys y wybodaeth a ddarperir i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod annibynnol gyda phrofiad sylweddol o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor hwn yn cwrdd bob chwarter a dyma grynodedeb o bresenoldeb yn y cyfarfodydd:

	Ebrill 2014	Gorffennaf 2014	Hydref 2014	Ionawr 2015
Ian Summers	✓	✓	✓	✓
Ken Jones	✓	✓	✓	✓
Eifion Pritchard	✓	✓	✓	✓
Mutale Merrill Penodwyd o 1 Mehefin 2014	AMH	✓	✓	✓

Mae tri o'r aelodau hyn wedi gweithio gyda mi a'm rhagflaenydd ers 2009. Mae'n arfer da fy mod yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu a chylchdroi amrywiaeth, sgiliau, gwybodaeth, a phrofiad cyfunol aelodau fy Mhwyllgor. Felly rwyf wedi ymestyn cyfnod Ken Jones ac Eifion Pritchard hyd at 31 Mawrth 2016 a chyfnod Ian Summers at 31 Mawrth 2017. Penodais Mutale Merrill fel aelod newydd o'm Pwyllgor am gyfnod o bedair blynedd ym mis Mehefin 2014. Yn ystod 2015-16, byddaf felly yn recriwtio dau aelod newydd i fod yn y swyddi o fis Ebrill 2016 ymlaen.

Mae'r Pwyllgor yn darparu adroddiad blynyddol i mi sy'n rhoi crynodeb o waith y Pwyllgor. Bu'r archwilwyr mewnol yn cymharu cynnwys yr adroddiad hwn ag adroddiadau cyrff cyhoeddus eraill yn 2013-14 a chynigiwyd nifer o argymhellion a'u gweithredu. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar fy ngwefan yn ogystal â chofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor er mwyn sicrhau bod fy nhrefniadau llywodraethu'n fwy tryloyw. Wrth gytuno ar gamau gweithredu ar gyfer 2014-15, mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar broses i asesu perfformiad gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol ac mae wedi'i gynnwys yn ei adroddiad blynyddol. Hefyd mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi bod mewn cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn gyda Chadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg eraill i rannu arferion da a'r hyn sydd wedi'i ddysgu.



Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o fewn ei gylch gorchwyl sy'n seiliedig ar ganllawiau arfer gorau a gyhoeddir gan y Trysorlys. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno hefyd ar broses i asesu effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ei hun. Mae'r Pwyllgor wedi adolygu ei waith ar gyfer 2014-15 ac wedi dod i'r casgliad ei fod yn gweithredu'n effeithiol ac yn cael gwybodaeth ddigonol.

O ganlyniad i'w waith yn 2014-15, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar lefel gyffredinol yr archwilio mewnol ac allanol. O ran fy nhrefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu corfforaethol ehangach a'r prosesau canfod risg a rheolaeth, mae'r Pwyllgor o'r farn, ar sail canfyddiadau'r archwilwyr a'i arsylwadau ei hun, y gall roi sicrwydd da iawn i mi bod y trefniadau sydd yn eu lle yn rhai priodol a'u bod wedi bod yn gweithredu'n effeithiol.

Dolen i'r wefan: [Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg](#)

Rwyf wedi penodi Deloitte i ddarparu **gwasanaethau archwilio mewnol**. Yn ystod 2014-15 bu Deloitte yn gyfrifol am gynnal adolygiadau ymgynghorol ar y Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru a'm polisi a gwaith dylanwadu. Gwnaethant hefyd roi sicrwydd llawn ar eu hadolygiad o systemau ariannol. Aethant ati hefyd i ddilyn y datblygiad sydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol, gan gynnwys meysydd llywodraethu a rheoli risg ac nid oedd argymhellion ar ôl heb eu gweithredu.

Yn ogystal ag adolygu trefniadau llywodraethu ac ariannol craidd, rwyf wedi gofyn i'm harchwilwyr mewnol gynnal adolygiadau ymgynghorol ar fy ngwaith cyfathrebu ac ymgysylltu, fy ngwaith i ddylanwadu ar bolisi ac arferion gweithredu a'm gwaith craffu ac amddiffyn yn ystod y cyfnod rhwng 2013 a 2016. Diben hyn yw:

- rhoi sicrwydd i mi fod fy ailstrwythuro wedi galluogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion sydd yn fy Fframwaith ar gyfer Gweithredu;
- nodi arferion gweithio da perthnasol yn yr hyn rydw i'n ei wneud, yn ogystal ag arferion gweithio da o lefydd eraill; a
- gwerthuso a ydw i'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i mi yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Bydd y rhaglen hon o waith ymgynghorol yn cael ei chwblhau yn 2015-16.

Yn ystod 2014-15, gweithiais gyda **Thîm Rheoli Strategol** (TRhS) fel y nodwyd yn yr Adroddiad Taliadau, a oedd yn cwrdd bob mis ac yn fy nghynorthwyo i gyflawni fy swyddogaethau mewn modd sy'n gyson â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU a Chod Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus h.y. yn gyson â'r safonau uchel sy'n ddisgwyliedig gan gorff sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus. Mae'r TRhs wedi adolygu ei Gylch Gorchwyl ac wedi dod i'r casgliad ei fod yn cael gwybodaeth ddigonol.

Rôl y TRhs, fel grŵp, yw darparu cyngor i mi, arweiniad corfforaethol i'r sefydliad cyfan, gwella ffordd gydweithredol o weithio sydd o fudd i bawb a sicrhau agwedd gyfannol at reoli risg, monitro perfformiad a nodi camau cywiro. Fel grŵp, nid yw'r TRhs yn gorff gwneud penderfyniadau; nid yw'n Fwrdd. Y fi yn rhinwedd fy swydd fel Comisiynydd sy'n gwneud penderfyniadau, ond gallaf ddirprwyo hyn i Gyfarwyddwyr unigol yn ôl yr hyn a gytunir gyda mi. Ond bydd y TRhs yn cyfrannu at y canlynol:

- datblygu nodau strategol a chynllun busnes blynyddol y Comisiynydd;
- dyrannu adnoddau ariannol, dynol ac adnoddau eraill yn effeithiol ac yn effeithlon i gyflawni'r nodau a'r amcanion hynny;
- asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd; ac
- asesu perfformiad y sefydliad yn gyffredinol o'i gymharu â'r amcanion a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Blynyddol a chyflawni'r Cynllun Strategol.

Dolen i'r wefan: [Tîm Rheoli Strategol](#)

### **Perfformiad y Comisiynydd**

oedd ail flwyddyn fy Fframwaith ar gyfer Gweithredu. Y prif amcanion yn y cynllun hwnnw oedd:

1. sicrhau bod lles pobl hŷn wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus.
2. gwella ansawdd a mynediad at ofal cymdeithasol ac iechyd ynghyd â cheisio sicrhau bod hyn ar gael.
3. gwarchod a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol.
4. cynrychioli pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u gwarchod.
5. mynd i'r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu.

Byddwn yn tynnu sylw at y cerrig milltir canlynol fel tystiolaeth o'r cynnydd i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn a'r nodau yn y dyfodol:

- Eleni, mae fy nhîm a minnau wedi cwrdd â 216 o grwpiau ledled Cymru, gan deithio dros 23,000 o filltiroedd i gyrraedd mwy na 5,700 o bobl hŷn;
- Cyhoeddais ganfyddiadau fy adolygiad i ansawdd bywyd a gofal ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru o dan Adran 3 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mewn adroddiad yn dwyn yr enw, 'Lle i'w Alw'n Gartref?';
- Daliais ati i gadeirio a chynnal y Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru a gafodd ei chychwyn gan fy swyddfa;
- Trefnais sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwyr' ychwanegol ar Wahaniaethu ar sail Oedran a luniwyd i edrych ar sut y mae gwahaniaethu o'r fath yn effeithio ar fywydau pobl hŷn, eu teuluoedd a'u cymunedau yng Nghymru;
- Cyhoeddais Ganllawiau i Awdurdodau Lleol ledled Cymru, o dan Adran 12 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 i'w hatgoffa o'u dyletswydd i sicrhau eu bod yn ymgysylltu ac yn ymgynghori'n llawn, yn ystyrllon ac yn effeithiol â phobl hŷn pan fydd newidiadau'n cael eu cynnig i wasanaethau cymunedol a phan fydd penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud.
- Trefnais fod pecyn ar gael ar gyfer pobl hŷn sy'n cynnwys amrywiaeth o wybodaeth ymarferol i helpu pobl hŷn i ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol, gan gynnwys sut y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau a'u herio, a pha gymorth sydd ar gael i'w helpu i wneud hyn.
- I ehangu gwybodaeth a ffyrdd o feddwl am y troseddau yn erbyn pobl hŷn a cham-drin pobl hŷn, cyflwynais gyfres o seminarau ledled Cymru a chyhoeddi llyfryn ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes amddiffyn oedolion.
- Mae 525 o bobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr wedi cysylltu â'm Tîm Amddiffyn a Chraffu, ac mae'r tîm wedi eu helpu drwy gynnig cefnogaeth neu gyngor unigol, yn aml pan nad oedd neb arall yn gallu helpu.

Adroddir ar berfformiad yn erbyn yr amcanion yn llawn ar dudalennau 5-31 ac mae hyn yn cael ei ystyried fel arfer gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad. Ceir crynodeb o'r perfformiad ariannol yn y datganiadau ariannol ar dudalen 61.

Dolen i'r wefan: [Cynlluniau Strategol](#)

Dolen i'r wefan: [Adroddiadau Blynyddol](#)

## Agwedd tuag at risg

Rwyf wedi parhau i adolygu ac atgyfnerthu fy Fframwaith Rheoli Risg yn ystod y flwyddyn, sydd â'r nod o gyflawni'r canlynol:

- Hyrwyddo diwylliant arloesol, sy'n llai awyddus i osgoi risg lle mae cymryd risgiau wedi'u mesur a'u rheoli yn cael ei annog a'i reoli wrth chwilio am gyfleoedd fydd o fudd i'r Comisiynydd;
- Gwella perfformiad y sefydliad drwy lywio a chryfhau'r broses o wneud penderfyniadau a chynllunio;
- Darparu sail gadarn ar gyfer rheoli risg integredig a rheolaeth fewnol fel rhan o lywodraethu corfforaethol da; a
- Sicrhau amgylchedd diogel i staff weithio ynddo.

Mae gan holl staff y sefydliad beth cyfrifoldeb dros reoli risg a rheolaeth fewnol er mwyn cyflawni eu hamcanion unigol a'm nodau a'm hamcanion innau.

Mae agwedd gadarnhaol tuag at reoli risg yn golygu y byddaf yn ystyried y risg o bethau'n mynd o chwith, ond hefyd yr effaith o beidio â manteisio ar gyfleoedd neu beidio ag elwa ar gryfderau corfforaethol. Rwyf yn cydnabod bod y sefydliad yn wynebu risgiau rydym yn gwybod amdanynt a fyddai, pe byddent yn cael eu hanwybyddu, yn effeithio'n ddifrifol ar fy ngallu i fodloni fy mlaenoriaethau strategol. Mae nifer o risgiau corfforaethol allweddol wedi cael eu trafod gyda'r Cyfarwyddwyr, yr archwilwyr mewnol a'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

- **Risg i Enw Da** – y gwaith o reoli'r risg hon fydd yn pennu llwyddiant neu fethiant y Comisiynydd – yn bersonol i'r sawl sy'n dal y swydd ac i enw da'r sefydliad. Y brif elfen yw methu â chyflawni. Dyma'r materion a nodwyd gyda'r risg hon wedi'i chynnwys:
  - Disgwyliadau eraill i gyflawni newid megis Adolygiad i Ansawdd Bywyd mewn Cartrefi Gofal. Methu â chyflawni ar y Fframwaith ar gyfer Gweithredu.
  - Argraffiadau pobl eraill fod y berthynas gyda Llywodraeth Cymru yn rhy agos a / neu'n rhy bell.
  - Gallai 'llwyddiant' wrth gynyddu ymwybyddiaeth o rôl a gwaith y Comisiynydd arwain at ddisgwyliadau afrealistig yn codi o broffil uwch a gall hynny arwain at ganlyniadau (y gellir eu gweld fel rhai) is na'r gorau posibl.
  - Amgylchedd gweithredu anodd gydag amrywiaeth sylweddol o faterion sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru.

- Mae angen profi cynlluniau Parhad Busnes yn rheolaidd.
- **Risg Wleidyddol** – gall y Comisiynydd ymbellhau oddi wrth Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill a chael ei 'ddefnyddio' fel pêl-droed gwleidyddol. Dyma'r materion a nodwyd gyda'r risg hon wedi'i chynnwys:
  - Gallai negeseuon y Comisiynydd fynd yn ddiabael - wrth geisio bodloni disgwyliadau pawb.
  - Mae'r Comisiynydd yn gweithio mewn amgylchedd gwleidyddol sy'n newid yn gyflym a hynny ar lefel ddatganoledig a lefel heb ei datganoli.
- **Risg Ariannol** – mae hyn yn mynd i fod yn risg drwy'r amser ond yn fwy fyth yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Mae rheoli risgiau o'r fath yn ystyriaeth allweddol wrth gyflawni fy ngweithgareddau ac yn cynnwys yr elfennau allweddol fel a ganlyn:

- Polisi rheoli risg sydd ar waith ac sydd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod 2014-15. Mae'r polisi hwn yn nodi'r ffordd ar gyfer yr holl staff y bydd y risgiau a'r cyfleoedd a wynebir gan y sefydliad yn cael eu canfod, eu gwerthuso, eu monitro a'u rheoli.
- Mae'r polisi rheoli risgiau yn galw am gynnal cofrestr risg, sydd wedi'i hadolygu a'i diweddarau gennyf fi. Adolygwyd ac atgyfnerthwyd fformat adrodd y gofrestr risg yn ystod y flwyddyn.
- I fod yn effeithiol, rhaid i reoli risg fod wedi'i wreiddio yn y broses o reoli a chynllunio fy ngwaith o ddydd i ddydd. Mae aelod o'r tîm rheoli strategol yn gyfrifol am bob risg a nodir.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystyried y broses o ganfod a rheoli risgiau. Mae'n cael ac yn ystyried holl adroddiadau ac argymhellion yr archwilwyr allanol a mewnol gan gynnwys adolygiad blynyddol yr archwilwyr mewnol o'r trefniadau rheoli risg.
- Polisiâu a gweithdrefnau ariannol, sy'n nodi cyfrifoldebau dros faterion ariannol gan gynnwys caffael, systemau ar gyfer rheolaeth ariannol ar wariant yn ogystal ag adrodd yn rheolaidd ar wir wariant yn erbyn cyllidebau.
- Rwyf fi a'm staff yn llofnodi ac yn ymrwymo i God Ymddygiad bob blwyddyn sy'n cynnwys saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ac rwyf wedi ymgorffori'r egwyddorion hyn yn y ffordd rwyf yn cyflawni fy ngwaith.

Os digwydd i'm staff neu eraill fynegi pryderon ynghylch y sefydliad na el-lir eu datrys yn rhwydd, rwyf wedi sefydlu trefniadau llywodraethu

priodol i ymdrin â hyn sy'n cynnwys Polisi Cwynion a Pholisi Codi Pryderon. Mae'r dogfennau hyn wedi'u cyhoeddi ar fy ngwefan.

Yn ystod 2014-15, ni chefais dim cwynion o dan y Polisi Cwynion (2013-14: 1 gŵyn). Yn ystod y flwyddyn, adroddais hefyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fod 6 o bryderon anffurfiol wedi dod i'm sylw, nid drwy ddefnyddio fy Mholisi Cwynion ffurfiol ond gallai fod hyn wedi achosi risg i enw da. Yn sgil hyn cafwyd newidiadau, er enghraifft, i brosesau mewnol a hyfforddiant i'm staff.

Yn ystod 2014-15, cefais ac ymatebais i 7 cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (2013-14: 4 cais) ac 1 cais o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (2013-14: 1 cais).

Mae trefniadau ar waith i warchod diogelwch y wybodaeth sydd gennyf fi. Mae hyn yn cynnwys data personol a ddelir sy'n ymwneud ag ymholiadau a wnaed ar ran unigolion hŷn yng Nghymru, a thystiolaeth a gasglwyd gennyf fi wrth gyflawni fy swyddogaethau. Yn 2013-14 torrwyd amodau diogelwch data unwaith ac roedd yn rhaid hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth. Er mwyn cryfhau'r dulliau rheoli wrth rannu gwybodaeth mae fy Nhîm Amddiffyn a Chraffu yn gallu defnyddio system e-bost diogel Cyfiawnder Troseddol (CJSM) ar gyfer rhannu data sensitif. Nid oedd dim digwyddiadau i'w hadrodd wrth y Comisiynydd Gwybodaeth yn 2014-15. Mae'r holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Rwyf yn cyhoeddi'r manylion diweddaraf ynghylch fy nhreuliau ar fy ngwefan bob chwarter.

Dolen i'r wefan: [Treuliau Comisiynydd](#)

Rwyf yn cadw cofrestr o bob rhodd a lletygarwch rwyf yn eu derbyn ac yn eu gwrthod, yn rhinwedd fy nyletswyddau swyddogol; mae hyn yn cael ei ddiweddarau bob chwarter ac yn cael ei gyhoeddi ar fy ngwefan.

Dolen i'r wefan: [Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch](#)

Rwyf wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd y sefydliad, wrth gyflawni busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd. Yn ystod 2014-15, rwyf wedi ymateb i geisiadau am wybodaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â gweithredu Safonau'r Gymraeg newydd.



Dolen i'r wefan: [Cynllun Iaith Gymraeg](#)

Yn ystod 2014-15 cyhoeddais fy Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb sydd ar gael ar fy ngwefan.

Dolen i'r wefan: [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#)

### **Adolygiad o effeithiolrwydd**

Yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn adolygu effeithiolrwydd fy fframwaith llywodraethu, a chaiff hwn ei lywio gan waith yr archwiliad mewnol, y tîm rheoli strategol, a sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) fel y'u cynhwysir yn y llythyrr rheoli ac adroddiadau eraill.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn fy nghynghori hefyd ar oblygiadau canlyniadau f'adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu.

Yn 2014-15 penderfynodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad ystyried cyfrifon detholiad o sefydliadau sy'n cael eu hariannu ag arian trethdalwyr gan gynnwys Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Felly, eleni rwyf wedi ystyried yr argymhellion perthnasol a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2015, ac mae gwaith ar y gweill gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd y Gymraeg i weithio mwy tuag atynt yn ystod 2015-16.

Ym mis Mehefin 2014, cafodd y sefydliad statws Arian Buddsoddwyr mewn Pobl gan wella ar y wobr sylfaenol a gafwyd yn 2011. Dywedodd yr asesydd bod digon o dystiolaeth i ddangos bod llawer o bobl yn angerddol am y gwaith y maent yn ei wneud a bod arferion gweithio AD rhagorol ar waith. Roedd yr asesydd o'r farn bod y buddsoddiad yn fy staff yn werthfawr ac yn arwain at ganlyniadau gwerth chweil megis lefelau uchel o gymhelliant, ymgysylltiad cryf, lefelau absenoldeb isel, sylfaen wybodaeth sy'n ehangu drwy'r amser, parch ac ystyriaeth y naill i'r llall ac ethig da o weithio mewn tîm.

Yn ystod y flwyddyn gwnaed cynnydd o ran cryfhau'r systemau rheoli mewnol, a symudwyd ymlaen a gweithredwyd ar argymhellion a wnaed gan archwilwyr mewnol. Mae cynlluniau yn eu lle hefyd i roi sylw i argymhellion newydd a sicrhau gwelliant parhaus yn y systemau.

Mae'r archwilwyr mewnol o'r farn bod gennyf, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015, system

rheolaeth fewnol gadarn yn y bôn, a ddylai roi sicrwydd sylweddol o ran cyflawni f'amcanion.

Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth sydd wedi'i rhoi yn y datganiad llywodraethu hwn. Casgliad f'adolygiad yw bod y gweithdrefnau a'r strwythurau rheolaeth fewnol a llywodraethu cyffredinol wedi bod yn briodol o ran cefnogi fy swyddogaethau a f'amcanion a'u bod wedi gweithio'n effeithiol drwy 2014-15.

Mae'r fframwaith llywodraethu uchod wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 a hyd at ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn. Paratowyd y datganiad hwn yn unol â chanllawiau'r Trysorlys.

### **Y Ffordd Ymlaen**

Yn ystod 2015-16 felly, byddaf yn parhau i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yn fy Fframwaith ar gyfer Gweithredu. Mae'r Pwyllgor Archwiliad a Sicrhau Risg a finnau wedi cytuno ar raglen o waith archwilio mewnol a fydd yn rhoi sicrwydd i mi ynghylch effeithiolrwydd y dulliau rheoli sydd ar waith. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg am ein datblygiad wrth i ni weithio gyda sefydliadau eraill ar yr argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad.

Mae'r broses o adolygu a rheoli risg yn un barhaus. Mae sawl cwestiwn y mae angen i mi a'r Cyfarwyddwyr weithio arnynt, sef:

- A ydym yn gallu cyfleu ein blaenoriaethau'n effeithiol a'r lefel o adnoddau a ymrwymwyd i gyflawni'r blaenoriaethau hynny?
- A ydym yn llwyddo i sicrhau effeithlonrwydd a chynhyrchiant digonol drwy gydweithio gyda sefydliadau tebyg eraill?
- Sut y byddwn yn adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma fel sefydliad, yn enwedig wrth i ni gychwyn blwyddyn olaf fy nghyfnod presennol yn y swydd, a allai achosi cyfnod o ansicrwydd a/neu gyfnod o newid?

**Sarah Rochira**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**29 Gorffennaf 2015**

## ADRODDIAD TALIADAU

### Polisi Taliadau

Gweinidogion Cymru sy'n pennu fy nghyflog, yn unol ag Atodlen 1(3) o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Dan delerau'r penodiad hwn mae codiadau blynyddol yn dilyn y dyfarniad canran a wneir gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Rwyf hefyd yn gymwys ar gyfer Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac rwyf wedi ymuno â'r cynllun hwnnw. Cafodd dyfarniad cyflog cyfun o 2% ar gyfer 2013-14 ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru a'i dalu ym mis Mawrth 2014; ni chafwyd dyfarniad yn 2014-15.

Pennir cyflogau staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiynydd gennyf fi yn dilyn cynnal adolygiad cyflogau blynyddol sy'n asesu unrhyw newid sylweddol i'r rôl, eu cyfraniad at amcanion strategol y Comisiynydd, ac effaith y newid ar swyddi eraill yn y sefydliad ac asesiad o gyfraddau ehangach y farchnad ar gyfer swyddi tebyg mewn sefydliadau cymharol eraill. Dyfarnwyd codiadau cynyddrannol i gyflogau staff eraill yn unol â thelerau ac amodau contractau. Cafodd cynnydd o 1% sef costau byw chwyddiant ei ddyfarnu yn 2014-15 (rhoddwyd 1% yn 2013-14).

### Contractau Gwasanaeth

Penodir aelodau parhaol o staff, ar delerau ac amodau a bennir gennyf fi, ar eu haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored, ond cynhwysir hefyd ddarpariaethau ar gyfer amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall. Mae'r egwyddorion hyn yn unol ag egwyddorion y Gwasanaeth Sifil. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae hawl ganddynt i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Oni nodir yn wahanol isod, mae penodiadau'r staff sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn benagored. Nid oes oedran ymddeol gorfodol, er y bydd rheolau'r PCSPS ar oed pensiwn cynharaf yn berthnasol.

Rwyf wedi sefydlu mecanweithiau i werthuso perfformiad i sicrhau y caiff cyfraniad gweithwyr unigol ei fesur ar lefel briodol ar bob cam o'u cyflogaeth gyda'r Comisiwn. Rwyf wedi rhoi rhaglen datblygu sefydliad ar waith i wella gallu a gwella lefelau perfformiad cyffredinol drwy sicrhau mwy o gynhyrchiant.

Byddai terfynu swydd, ac eithrio am gamymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

### Taliadau (gan gynnwys cyflog) a Hawliau Pensiwn

Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r adrannau canlynol yn darparu manylion cyflogau a buddiannau pensiwn y Comisiynydd a staff uwch.

### Taliadau (cyflog, buddion ymarferol a phensiynau)

Mae'r cyflog yn cynnwys cyflog gros, taliadau goramser ac unrhyw lwfans arall i'r graddau bod trethiant y DU yn berthnasol iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a gronwyd ac a wnaed gan y Comisiynydd ac sydd wedi'u cofnodi felly yn y cyfrifon hyn. Ni dderbyniais i nac unrhyw aelod arall o staff fuddion ymarferol nac unrhyw fonws.

Enw a theitl	Cyflog	Cyflog	Buddion Pensiwn (1)	Buddion Pensiwn (1)	Cyfanswm	Cyfanswm
	2014-15 £000	2013-14 £000	2014-15 £000	2013-14 £000	2014-15 £000	2013-14 £000
Sarah Rochira Comisiynydd	90-95	90-95	35	35	125-130	125-130
Alison Phillips Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad a Dirprwy Gomisiynydd	65-70	60-65	25	24	90-95	85-90

<b>Enw a theitl</b>	<b>Cyflog</b>	<b>Cyflog</b>	<b>Buddion Pensiwn (1)</b>	<b>Buddion Pensiwn (1)</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>Cyfanswm</b>
	<b>2014-15 £000</b>	<b>2013-14 £000</b>	<b>2014-15 £000</b>	<b>2013-14 £000</b>	<b>2014-15 £000</b>	<b>2013-14 £000</b>
Anna Buchanan (2) Cyfarwyddwr Amddiffyn, Craffu a Hawliau Dynol	0-5	40-45	0	0	0-5	40-45
Kelly Davies Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu	45-50	40-45	18	18	60-65	55-60
Daisy Cole (3) Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	50-55	45-50	21	18	75-80	60-65
Clare Lane (4) Cyfarwyddwr Amddiffyn a Chraffu	25-30	amh	12	amh	40-45	amh

- (1) Mae gwerth y buddion pensiwn sydd wedi'u cronni yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) yn ogystal â'r (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw lwmp swm) llai'r (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.
- (2) Gadawodd Anna Buchanan gyflogaeth y Comisiynydd ar 21 Ebrill 2014; y bandio ar gyfer cyflog effaith y flwyddyn lawn ar gyfer 2014-15 oedd £45-50k. Dewisodd beidio â chael ei chynnwys yn nhrefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn ystod 2013-14 a 2014-15.
- (3) Penodwyd Daisy Cole o 7 Mai 2013; y bandio ar gyfer cyflog effaith y flwyddyn lawn ar gyfer 2013-14 oedd £50-55k.
- (4) Penodwyd Clare Lane o 21 Gorffennaf 2014; y bandio ar gyfer cyflog effaith y flwyddyn lawn ar gyfer 2014-15 oedd £40-45k.

## Cymarebau tâl

Mae'n ofynnol i gyrrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. Roedd tâl band y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog mwyaf (y Comisiynydd) yn £90-95 yn 2014-15 (2013-14: £90-95). Roedd hwn 3.06 gwaith yn fwy (2013-14: 3.25) na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £30,300 (2013-14: £28,568). Mae'r newid yn cyfateb i bwynt cynyddrannol o fewn Band C (£26,200- £31,850 gan gynnwys 1% o gynnydd chwyddiannol mewn costau byw) ac mae'n adlewyrchu newidiadau mewn staff o fewn y band hwnnw.

Mae'r taliad cyfan yn cynnwys cyflog yn unig ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau. Nid yw'r ffigurau ar gyfer y cyfrifiad hwn yn cynnwys symiau iawndal am golli swydd na thaliadau a wnaed yn lle rhybudd. Yn 2014-15, ni chafodd yr un cyflogai (2013-14: dim) daliadau a oedd yn fwy na rôl y Comisiynydd. Yn 2014-15, roedd y taliadau yn seiliedig ar y graddfeydd cyflog ac yn amrywio o £16,100 i £72,750 (2013-14: £15,908 – £71,988).

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

	<b>Pensiwn cronodig ar oed pensiwn ar 31/03/2015 a'r cyfandaliad cysylltiedig</b>	<b>Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oed pensiwn</b>	<b>CETV ar 31/3/15</b>	<b>CETV ar 31/3/14</b>	<b>Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Sarah Rochira Comisiynydd Dechreuodd ei chyfnod yn y swydd ar 4/6/12	5-10	0-2.5	72	45	17
Alison Phillips Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad a	5-10	0-2.5	66	49	8



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015

	<b>Pensiwn cronodig ar oed pensiwn ar 31/03/2015 a'r cyfandaliad cysylltiedig</b>	<b>Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oed pensiwn</b>	<b>CETV ar 31/3/15</b>	<b>CETV ar 31/3/14</b>	<b>Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Dirprwy Gomisiynydd					
Anna Buchanan Cyfarwyddwr Amddiffyn, Craffu a Hawliau Dynol (1)	amh	amh	amh	18	amh
Kelly Davies Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu	0-5	0-2.5	27	17	5
Daisy Cole Cy- farwyddwr Lles a Grymuso (2)	0-5	0-2.5	25	11	9
Clare Lane Cy- farwyddwr Amddiffyn a Chraffu (3)	0-5	0-2.5	6	amh	4

(1) Gadawodd Anna Buchanan gyflogaeth y Comisiynydd ar 21 Ebrill 2014. Dewisodd beidio â chael ei chynnwys yn nhrefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn ystod 2013-14 a 2014-15.

(2) Penodwyd Daisy Cole o 7 Mai 2013; nid oedd CETV ar 7 Mai 2013

(3) Penodwyd Clare Lane o 21 Gorffennaf 2014; nid oedd CETV ar 21 Gorffennaf 2014

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007 ymlaen, gall cyflogeion fod yn rhan o un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu glasurol a mwy); neu gynllun gyrfa gyfan (Nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau clasurol, premiwm, clasurol a mwy a Nuvos yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Gall aelodau sydd wedi ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau'r gweithiwr yn gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio o rhwng 1.5% a 6.85% o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun clasurol, a rhwng 3.5% a 8.85% ar gyfer y cynlluniau premiwm, clasurol a mwy a Nuvos. Mae'r buddion o dan y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol pan fydd gweithiwr yn ymddeol. Gyda'r cynllun premiwm, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes dim cyfandaliad awtomatig. Mae Clasurol a Mwy yn ei hanfod yn gynllun hybrid gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun Clasurol, a buddion am wasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun Premiwm. Yn Nuvos mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei gynyddu yn ôl deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (cyfnewid) i gael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfranddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oed yr aelod) i bensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes raid i'r cyflogai gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr).

Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu costau yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw tra'n dal i weithio ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oed pensiwn neu dros yr oed hwnnw. Oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau cynlluniau clasurol, premiwm a chlasurol a mwy, a 65 ar gyfer aelodau Nuvos.

Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan <http://www.civilservice.gov.uk/pensions>.

Bydd trefniadau pensiwn Cyfartaledd Gyrfa newydd yn cael eu cyflwyno o 1<sup>af</sup> o Ebrill 2015 ymlaen a byddy mwyafrif o aelodau pensiynau clasurol, premiwm, clasurol a mwy a Nuvos yn ymuno â'r cynllun. Mae rhagor o fanylion am y cynllun newydd hwn ar gael yn <http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/members/the-new-pension-scheme-alpha>.

### **Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV)**

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafog buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sydd i'w dalu o'r cynllun i wŷr neu wraig. Taliad yw'r CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn

ychwanegol a gronwyd i'r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

### Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiau cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Iawndal am gollu swydd

Nid oedd dim taliadau iawndal wedi'u gwneud yn 2014-15. Yn 2012-13, cyflwynais achos busnes a oedd yn pennu newidiadau angenrheidiol i'r strwythurau ar lefel uwch yn y sefydliad. O ganlyniad, newidiodd swyddogaeth ac aelodaeth yr uwch dim rheoli. Daeth y newidiadau hyn i rym o 1 Ebrill 2013 ymlaen a gwelwyd newidiadau pellach yn rôl a chyfrifoldebau aelodau eraill o staff ar ôl i'r Cyfarwyddwyr newydd ddechrau yn eu swyddi yn ystod 2013-14. O ganlyniad i weithredu fy nghynigion, talwyd y taliadau iawndal canlynol ar gyfer colli swydd yn 2013-14:

Band cost y pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol	Nifer y Pecynnau Dileu Swydd Gwirfoddol y cytunwyd arnynt	Nifer y Pecynnau Ymadael Gwirfoddol y cytunwyd arnynt	Nifer y taliadau ex gratia y cytunwyd arnynt	Cyfanswm y pecynnau
<b>Cyfanswm cost 2014-15 mewn £000</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Cyfanswm cost	0	0	£37k	0	£37k

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015

2013-14 mewn £000					
£10k-£25k	0	0	3	0	3

Talwyd costau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun lawndal y Gwasanaeth Si-fil, sy'n gynllun statudol a luniwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifir y costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael berthnasol. Lle y cytunais i daliadau ymadael yn gynnar, talais y costau o'm cyllid fy hun, ac nid o'r Cynllun. Nid oedd y tri aelod o staff a gafodd becynnau ymadael yn gynnar yn 2013-14 yn uwch aelodau staff.

**Sarah Rochira**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**29 Gorffennaf 2015**

## **Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

### **Priod gyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r archwilydd**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol, yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth i'w harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adroddi Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

### **Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb unrhyw amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.



Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gynnal yr archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### **Barn ar y datganiadau ariannol**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar 31 Mawrth 2015 a'i wariant net, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

### **Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ymhob ffordd sy'n faterol berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006; ac
- mae'r wybodaeth yn Sylwadaeth y Rheolwyr yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### **Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a bennwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu  
nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Huw Vaughan Thomas Arch-  
wilydd Cyffredinol Cymru  
Awst 2015**

**Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caredydd  
CF11 9LJ**

*Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynhالياeth a chywirdeb gwefan Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; nid yw'r gwaith sydd yn cael ei wneud gan archwilwyr yn rhoi ystyriaeth i'r materion yma, ac felly, nid yw'r archwilwyr yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno yn wreiddiol ar y wefan.*

## DATGANIADAU ARIANNOL DATGANIAD AM Y GWARIANT NET CYNHWYSFAWR

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015

	Nodyn	2014/15 £000	2013/14 £000
<b>Gwariant</b>			
Costau staff	2	1,182	1,178
Dibrisiant / Amorteiddiad	3	11	5
Gwariant arall	3	574	583
		<u>1,767</u>	<u>1,766</u>
<b>Incwm</b>			
Incwm arall	4	19	0
<b>Cyfanswm Gwariant Net Cynhwysfawr</b>		<u>1,748</u>	<u>1,766</u>

Nid oes dim enillion na cholledion cydnabyddedig ar gyfer 2013-14 na 2014-15.

## DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL

Fel ar 31 Mawrth 2015

	Nodyn	31 Mawrth 2015 £000	31 Mawrth 2014 £000
<b>Asedau anghyfredol:</b>			
Gwelliannau prydles	5	2	3
Offer swyddfa / TGCh	5	33	7
Asedau anniriaethol	6	<u>5</u>	<u>8</u>
<b>Cyfanswm asedau anghyfredol</b>		40	18
<b>Asedau Cyfredol:</b>			
Symiau masnach derbyniadwy	8	72	32
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	9	318	430
<b>Cyfanswm asedau cyfredol</b>		<u>390</u>	<u>462</u>
<b>Cyfanswm asedau</b>		430	480
<b>Rhwymedigaethau Cyfredol:</b>			
Symiau masnach taladwy	10	11	60
Rhwymedigaethau eraill	10	<u>76</u>	<u>77</u>
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol</b>		87	137
<b>Asedau anghyfredol a/llai asedau/rhwymedigaethau cyfredol net</b>		343	343
<b>Rhwymedigaethau anghyfredol</b>			
Darpariaethau	11	60	60
Credydwr gohiriedig	12	<u>2</u>	<u>4</u>
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol</b>		62	64
<b>Asedau llai rhwymedigaethau</b>		281	279
<b>Ecwiti trethdalwyr</b>			
Arian wrth gefn cyffredinol		<u>281</u>	<u>279</u>
		<u>281</u>	<u>279</u>

**Sarah Rochira**  
**Comisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu**  
**29 Gorffennaf 2015**

## DATGANIAD LLIF ARIAN

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015

		1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015	1 Ebrill 2013 - 31 Mawrth 2014
	Nodyn	£ 000	£000
<b>Llif arian o weithgareddau gweithredu</b>			
Gwariant net		(1,748)	(1,766)
Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol	3	11	5
(Cynnydd)/Gostyngiad – symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	8	(40)	7
Cynnydd/(gostyngiad) – symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	10	(50)	(86)
Colled ar Waredu Offer	3	1	0
Darpariaethau	11	0	0
Cynnydd mewn Credydwr gohiriedig	12	(2)	4
<b>All-lif arian o weithgareddau gweithredol</b>		<b>(1,828)</b>	<b>(1,836)</b>
<b>Llif arian o weithgareddau buddsoddi</b>			
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar	5	(34)	(5)
Prynu asedau anniriaethol	6	0	(5)
Elw o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar		0	
<b>All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi</b>		<b>(34)</b>	<b>(10)</b>
<b>Llif arian o weithgareddau buddsoddi</b>			
Cyllid gan Lywodraeth Cymru		1,750	1,730
<b>Cyllid net</b>		<b>1,750</b>	<b>1,730</b>
<b>Cynnydd/(gostyngiad) net – symiau cyfwerth ag arian am y cyfnod</b>		<b>(112)</b>	<b>(116)</b>
<b>Arian a symiau cyfwerth ag arian ar ddechrau'r cyfnod</b>	9	<b>430</b>	<b>546</b>
<b>Arian a symiau cyfwerth ag arian ar derfyn y cyfnod</b>	9	<b>318</b>	<b>430</b>

## DATGANIAD O NEWIDIADAU YN ECWITI TRETHDALWYR

### Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015

	Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol	
	1 Ebrill 2014- 31 Mawrth 2015 £000	1 Ebrill 2013- 31 Mawrth 2014 £000
Balans ar 1 Ebrill	279	315
Gwariant net	<u>(1,748)</u>	<u>(1,766)</u>
Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig	(1,469)	(1,451)
Cyllid gan Lywodraeth Cymru	<u>1,750</u>	<u>1,730</u>
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b><u>281</u></b>	<b><u>279</u></b>



## **NODIADAU I'R CYFRIFON**

### **1. Datganiad polisïau cyfrifo**

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2014-15. Mae'r polisïau cyfrifo a gynhwysir yn FReM yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Lle y mae FReM yn caniatáu dewis o ran polisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo y barnwyd ei fod fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru at ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Nodir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd. Defnyddiwyd hwy'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

#### **1.1 Confensiwn cyfrifo**

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i ystyried ailbriso asedau anghyfredol.

#### **1.2 Asedau anghyfredol**

Cynhwysir asedau anghyfredol ar eu cost, oherwydd, ym marn y Comisiynydd, byddai unrhyw addasiad sy'n codi o ailbriso yn amherthnasol. Mae pob ased anghyfredol yn eiddo i'r Comisiynydd.

#### **1.3 Asedau Anghyfredol Diriaethol**

Isafswm lefel cyfalafu ased anghyfredol diriaethol yw £1,000 gan gynnwys TAW anadferadwy. Delir teitl pob eiddo gan y Comisiynydd. Mae'r holl eiddo a ddefnyddir gan y Comisiynydd ar brydles. Nid yw asedau anghyfredol diriaethol eraill wedi'u hailbriso oherwydd, ym marn y Comisiynydd, ni fyddai'r symiau dan sylw'n berthnasol.

#### **1.4 Asedau Anghyfredol Anniriaethol**

Caiff trwyddedau meddalwedd a meddalwedd technoleg gwybodaeth eu cyfalafu fel asedau anghyfredol anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod disgwylidig eu hoes ddefnyddiol (4 blynedd fel arfer).

#### **1.5 Dibrisiant / Amorteiddiad**

Darperir Dibrisiant/Amorteiddiad ar gyfradd a gyfrifwyd i ddileu'r asedau anghyfredol diriaethol drwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol yn ôl amcangyfrif.

Fel arfer, mae oes asedau fel a ganlyn:

Gwelliannau prydlles	Tymor y brydlles neu hyd at y cymal torri hyd uchafswm o 5 mlynedd
Offer swyddfa	5 mlynedd
Offer cysylltiedig â TGCh	4 blynedd

- 1.6 Incwm, cyllid a gwariant  
Prif ffynhonnell gyllid y Comisiynydd yw Llywodraeth Cymru ar ffurf grant blynyddol.

Dangosir arian a ddaeth i law o gostau secondiad i'r tu allan fel costau cysylltiedig â staff.

Mae gwariant yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae swydd y Comisiynydd ar waith yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. Dim ond un segment gweithredol sydd gan y Comisiynydd fel y gwelir yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr a nodiadau cysylltiedig.

Mae incwm arall yn ymwneud ag arian a dderbyniwyd ar gyfer gweithgareddau penodol gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru.

Nid yw'r Comisiynydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Adroddir ar yr holl wariant gyda TAW wedi'i gynnwys lle bo hynny'n berthnasol, gan nad oes modd adfer TAW.

- 1.7 Cyfnewid Arian Tramor  
Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol ar ddyddiad y trafodion unigol. Caiff imprestau arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol adeg cyllido.

#### 1.8 Pensiynau

Mae'r Comisiynydd a staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'n gynllun buddion diffiniedig heb ei gyllido ar gyfer sawl cyflogwr. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun ar y cyfrif gwariant net pan fyddant i'w talu yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil. <http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/>

#### 1.9 Tâl Prydlesi Gweithredol

Mae taliadau prydles yn cael eu cydnabod fel treuliau ac yn cael eu nodi yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

#### 1.10 Darpariaethau

Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer ymrwymïadau cyfreithiol neu gontractiol lle mae'r amseriad neu'r swm yn ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymïad.

#### 1.11 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Roedd y Comisiynydd wedi tynnu arian yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, sy'n cael ei adneuo yng nghyfrif Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar ôl iddo ddod i law. Caiff arian ei dynnu i lawr i gyfrif banc masnachol er mwyn talu rhwymedigaethau fel y maent yn dod yn ddyledus. Mae arian mân hefyd yn swyddfa'r Comisiynydd.

## 2. Nifer y staff a chostau cysylltiedig

Mae costau staff yn cynnwys:

	<b>2014/15</b>	<b>2013/14</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
<b>Staff a Gyflogir yn Barhaol</b>		
Cyflogau	921	922
Costau Nawdd Cymdeithasol	66	62
Costau Pensiwn Eraill	173	145
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>1,160</b>	<b>1,129</b>
Costau secondiadau i mewn ac asiantaeth	22	63
Llai arian a geir yn sgil secondiad i'r tu allan	0	(14)
<b>Cyfanswm costau net</b>	<b>1,182</b>	<b>1,178</b>

O fewn costau staff y mae £13,277 (2013-14: £14,603) sy'n berthnasol i dalu pedwar aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yn 2013-14 rhoddwyd taliadau ychwanegol i Ken Jones am waith pellach yng nghyswllt agweddau ar Raglen Waith 2013-14. Mae'r gwariant hwn wedi'i gynnwys yn Nodyn 3 Rhaglenni Penodol.

Mae cyflogau yn cynnwys taliadau a wnaed yn 2013-14 i 3 aelod o staff fel rhan o waith ailstrwythuro'r Comisiynydd; gan gynnwys iawndal am golli swydd. Dangosir yr iawndal am golli swydd yn llawn yn yr Adroddiad Taliadau.

Ar gyfer 2014-15, roedd cyfraniadau cyflogwr o £173k yn daladwy i'r PCSPS (2013-14: £146k) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 16.7% i 24.3% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwr, fel arfer bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif partneriaeth, pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Ni thalwyd cyfraniadau cyflogwr yn 2014-15, (2013-14: £2k) i un neu fwy o banel o dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran, ac maent yn amrywio o 3% i 12.5% o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwr hefyd yn rhoi cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ychwanegol, roedd

cyfraniadau gan y cyflogwr o £0 (2013-14 £1k), 0.8% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS ar gyfer talu cost buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgil marwolaeth mewn gwaith neu ymddeoliad oherwydd iechyd gwael yng nghyswllt y cyflogeion hyn. Mae'r holl gyfraniadau hyn yn cael eu cynnwys o dan y pennawd Costau Pensiwn Eraill yn nodyn 2 uchod.

Roedd cyfartaledd nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch aelodau staff) fel a ganlyn:

	2014/15	2013/14
Staff Parhaol	21.27	21.20
Staff ar Secondiad	0.67	0.60
Staff Achlysurol/Dros Dro	0	0.38
Penodiadau Cyfnod Penodol	6.00	4.23
<b>Cyfanswm</b>	<b>27.94</b>	<b>26.41</b>

### 3. Gwariant Arall

Mae gwariant arall yn cynnwys:

	<u>2014/15</u> <u>£000</u>	<u>2013/14</u> <u>£000</u>
Rhenti dan brydlesi gweithredol	55	58
Costau llety eraill	69	65
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	15	5
Ffioedd proffesiynol	73	48
Hyfforddiant a datblygu	22	11
Teithio a chynhaliaeth	25	27
Ffioedd Archwilio – Archwilio Mewnol	10	9
Ffioedd Archwilio – Archwilio Allanol	15	15
Rhaglenni Penodol	172	180
Costau gweinyddol eraill	<u>117</u>	<u>165</u>
	<b>573</b>	<b>583</b>
 Eitemau anariannol:		
Colled wrth waredu	1	0
Dibrisiant	8	2

Amorteiddiad	3		3
<b>Cyfanswm</b>	<b>585</b>		<b>588</b>

### Rhaglenni Penodol

Yn ystod 2014/15, cododd y costau uniongyrchol ychwanegol canlynol gan y Comisiynydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd yn y Fframwaith ar gyfer Gweithredu 2013-2017. Nid yw'r gwariant a ddatgelwyd yn cynnwys dosrannu unrhyw gostau cyflog staff y Comisiynydd, gan gynnwys staff ar secondiad, ac mae'n adlewyrchu costau uniongyrchol ychwanegol yn unig.

<b>Rhaglenni - Fframwaith ar gyfer Gweithredu 2013-2016</b>	<b>2014/15</b>	<b>2013/14</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Sicrhau bod lles pobl hŷn wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus.	45	28
Gwella ansawdd a mynediad at ofal cymdeithasol ac iechyd ynghyd â cheisio sicrhau bod hyn ar gael.	76	75
Gwarchod a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol.	20	9
Cynrychioli pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u gwarchod.	18	30
Mynd i'r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu.	13	38
<b>Cyfanswm</b>	<b>172</b>	<b>180</b>



#### 4. Incwm Arall

	<b>2014/15</b>	<b>2013/14</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Incwm arall o weithgareddau gweithredu	19	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>19</b>	<b>0</b>

Mae incwm arall yn ymwneud ag arian a dderbyniwyd ar gyfer gweithgareddau penodol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru.

## 5. Asedau Anghyfredol Diriaethol

	Technoleg Gwybodaeth £000	Gwelliannau Prydles £000	Offer Swyddfa £000	Cyfanswm £000
Cost neu brisiad				
Ar 1 Ebrill 2014	40	272	41	353
Ychwanegiadau	25	0	9	34
Gwarediadau	(21)	0	(13)	(34)
Ar 31 Mawrth 2015	44	272	37	353
Dibrisiant				
Ar 1 Ebrill 2014	37	269	37	343
Cofnodwyd yn y flwyddyn	5	1	2	8
Gwarediadau	(21)	0	(12)	(33)
Ar 31 Mawrth 2015	21	270	27	318

<b>Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015</b>	<b>23</b>	<b>2</b>	<b>10</b>	<b>35</b>
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014	3	3	4	10

Ni amharwyd ar asedau ac fe'u dangosir ar gost yr ystyrir ei fod yn 'werth teg'.

## 6. Asedau anghyfredol anniriaethol

	Trwyddedau Meddalwedd £000	Technoleg Gwybodaeth £000	Cyfanswm £000
Cost neu brisiad			
Ar 01 Ebrill 2014	46	58	104
Ychwanegiadau	0	0	0
Gwarediadau	0	0	0
<b>Ar 31 Mawrth 2015</b>	<b>46</b>	<b>58</b>	<b>104</b>
Amorteiddiad			
Ar 01 Ebrill 2014	46	50	96
Cofnodwyd yn y flwyddyn	0	3	3
Gwarediadau	0	0	0
<b>Ar 31 Mawrth 2015</b>	<b>46</b>	<b>53</b>	<b>99</b>

<b>Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015</b>	<b>0</b>	<b>5</b>	<b>5</b>
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014	0	8	8

## 7. Offerynnau ariannol

Gan fod gofynion arian y Comisiynydd yn cael eu diwallu drwy gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae offerynnau ariannol (buddsoddiadau, deilliadau ac offerynnau ariannol eraill) yn chwarae rôl fwy cyfyngedig o ran creu risg a fyddai'n berthnasol i gorff heb fod yn y sector cyhoeddus.

Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion disgwylid y Comisiynydd o ran prynu a defnyddio, ac felly nid yw'r Comisiynydd yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

## 8. Symiau masnach derbyniadwy

	<b>2014/15</b>	<b>2013/14</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
<b>Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn:</b>		
Symiau masnach derbyniadwy	33	0
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	39	32
	<b>72</b>	<b>32</b>

Nid oedd symiau masnach derbyniadwy yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn.

## 9. Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

	<b>2014/15</b>	<b>2013/14</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Balans ar 1 Ebrill	430	546
Newid net mewn balansau arian a chyfwerth ag arian	(112)	(116)
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>318</b>	<b>430</b>
Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn:		
Gwasanaeth Bancio	244	345
Banciau masnachol ac arian mewn llaw	74	85
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>318</b>	<b>430</b>

## 10. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	<b>2014/15</b>	<b>2013/14</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
<b>Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn:</b>		
Treth a nawdd cymdeithasol arall	0	40
Symiau masnach taladwy	11	20
Croniadau ac incwm gohiriedig	76	77
	<b>87</b>	<b>137</b>

## 11. Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

	<b>2014/15</b>	<b>2013/14</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
Balans ar 1 Ebrill	60	60
Darparwyd yn y flwyddyn	0	0
Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	0	0
Balans ar 31 Mawrth	<b>60</b>	<b>60</b>

Gwneir darpariaeth ar gyfer ailaddurno/dadfeiliadau yn ein swyddfeydd yn ystod tymor y brydles ac ar derfyn y brydles. Adolygwyd y ddarpariaeth hon yn ystod 2014-15 fel sy'n ofynnol dan IAS 37 ac ni ystyrir bod angen gwneud unrhyw newid.

## 12. Credydwr gohiriedig

	<b>2014/15</b> <b>£000</b>	<b>2013/14</b> <b>£000</b>
Ar 1 Ebrill	4	0
Gwariant cronedig yn ystod y flwyddyn	0	4
Rhyddhawyd i Gyfrif Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr	(2)	0
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>2</b>	<b>4</b>

Mae gan y Comisiynydd brydles weithredu 5 mlynedd yng nghyswllt swyddfeydd, sy'n cynnwys rhent amrywiol dros oes y brydles, a thoriad heb effaith ym mlwyddyn 3. Cofnodir costau gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles yn unol ag IAS 17. Bydd y credydwr gohiriedig yn rhyddhau'n llwyr ym Mlwyddyn 3 y brydles.

## 13. Ymrwymadau cyfalaf

	<b>2014/15</b> <b>£000</b>	<b>2013/14</b> <b>£000</b>
Ymrwymadau cyfalaf ar gontract ar 31 Mawrth na wnaed darpariaeth ar eu cyfer	0	12

Roedd gan y Comisiynydd ymrwymadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2014 yn ymwneud â gosod gwasanaethau rhwydwaith band eang yn y swyddfa; cwblhawyd y gwaith hwn yn 2014-15. Nid oes dim ymrwymadau cyfalaf yn ddyledus ar 31 Mawrth 2015.



#### 14. Ymrwymadau dan brydlesi

(a) Prydlesi gweithredol

Nodir cyfanswm taliadau prydles sylfaenol i'r dyfodol yn y tabl isod wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y daw'r brydles i ben.

	<b>2014/15</b>	<b>2013/14</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
<b>Mae'r rhwymedigaethau dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:</b>		
Tir ac adeiladau:		
Dod i ben o fewn blwyddyn	56	50
Dod i ben ar ôl blwyddyn ond ddim mwy na 5 mlynedd*	19	75
Hwyrach na phum mlynedd	0	0
	<b>75</b>	<b>125</b>

\*Mae'r Comisiynydd wedi cytuno ar gytundeb prydles newydd am gyfnod o 5 mlynedd o 5 Awst 2013 ymlaen.

	<b>2014/15</b>	<b>2013/14</b>
	<b>£000</b>	<b>£000</b>
<b>Mae'r rhwymedigaethau dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:</b>		
Arall: Offer Swyddfa		
Dod i ben o fewn blwyddyn	0	1
Dod i ben ar ôl blwyddyn ond ddim mwy na 5 mlynedd	2	0
Hwyrach na phum mlynedd	0	0
	<b>2</b>	<b>1</b>

(b) Prydlesi cyllid a chontractau PFI

Nid oes rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid na chontractau PFI (2013-14; dim). Nid yw'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu canslo nad ydynt yn brydlesi neu'n gontractau PFI (2013-14; dim).

### **15. Rhwymedigaethau amodol a ddatgelir dan IAS 37**

Nid oes gan y Comisiynydd rwymedigaethau amodol nad ydynt yn cael eu datgelu mewn manau eraill yn y cyfrifon hyn (2013-14: dim).

### **16. Trafodion partïon cysylltiedig**

Yn 2014-15 derbyniodd y Comisiynydd gyllid o £1.750M gan Lywodraeth Cymru (2013-14: £1.730M) a oedd yn cynnwys dyraniad anghylchol o £35k ar gyfer y Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2014-15 ni fu'r Comisiynydd, nac unrhyw aelod arall o'r Tîm Rheoli Strategol, nac unrhyw aelod o'u teulu'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r hawliadau treuliau a'r taliadau cyflog arferol.

### **17. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd**

Ni chafwyd digwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y flwyddyn a chwblhau'r cyfrifon hyn.